

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 373 - 60c
Mai 2019

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Llwyddiant
Celf a Chrefft
yr Urdd**



Tudalen 15 a 20

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 11

**Pel-droedwyr
medrus yr
ardal**



Tudalen 19

Eisteddfod Gadeiriol Capel y Groes

Twm Ebbisowrth, Brynamlwg, Llanwnnen oedd enillydd y gadair i rai o dan 21 oed. Mae Twm yn fyfyrwr yn ei flwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Aberystwyth. Roedd y gadair yn rhoddedig gan Enfys, Mair, Nans a'r diweddar Dai i gofio am eu rhieni Gwesyn a Joyce Williams, Pleasant Hill, Blaencwrt.



Sara Elan, Cwmann yn ennill y Sioe Gerdd, 'Sgen di dalent, Adrodd Digri, 2il yn Unawd 16-21 oed, Adrodd 16-21 a 3ydd yn Canu Emyrn Agored. Mae'n dal Cwpan y Sioe Gerdd er cof am John a May Lewis, Talardd.



Parti Canu i Ysgolion Cynradd neu Ysgolion Sul – 1. Côr Dyffryn Cledlyn 2. Bl. 3 a 4 Dyffryn Cledlyn 3. Cyfnod Sylfaen Dyffryn Cledlyn.



Cwpan sialens er cof am Magw Hughes, Cwmhendryd i'r plentyn mwyaf addawol – Noa Potter-Jones, Drefach.

Eisteddfod Capel y Groes



Ela Mablen Giffiths-Jones, Cwrtnewydd yn ennill Cwpan Sialens Iona Marks, Cegin Fach y Wlad am Ganu Emyrn dan 12 oed, 1af am Ganu ac 2il am Adrodd 8-10.



Alwena Mair Owen, Llanllwni yn ennill Unawd Offeryn Cerdd a Adrodd 10 - 12, 2il yn y Canu 10 - 12 a'r Canu Emyrn a 3ydd yn darllen o'r Ysgythur.



Dan 8 oed [cyf] Canu ac Adrodd - 1. Noa Potter-Jones, Drefach. 2. Tirion Tomos, Pencarreg. 3. Elliw Grug Davies, Drefach.



8 oed tan gadael ysgol Canu - 1. Swyn Efa Tomos, Pencarreg. 2. Glesni Rees, Cwmsychpant. 3. Erin Potter-Jones, Drefach. Adrodd - 1. Fflur Morgan, Drefach. 2. Swyn Tomos, Pencarreg. 3. Elin Morgan, Cribyn.



Canu 6-8 oed 1. Noa Potter-Jones, Drefach. 2. Tirion Tomos, Pencarreg. 3. Celyn Davies, Llandyfriog a Delun Ebenezer, Cellan. Adrodd 1. Jano Rael, Croeslan. 2. Delun Ebenezer. 3. Tirion Tomos a Celyn Davies.



Uchafbwyntiau'r mis ar
clonc360.cymru

IAITH ADDYSGU CYFNOD SYLFAEN YSGOL BRO PEDR YN NEWID I'R GYMRAEG

Cymraeg bydd cyfrwng addysgu yng nghyfnod sylfaen Ysgol Bro Pedr o fis Medi 2019 ymlaen. Mae'r datblygiad yn dilyn cymeradwyaeth o'r cynllun gan Gabinet Cyngor Sir Ceredigion.



Disgyblion Ysgol Bro Pedr ym Mharêd Gŵyl Dewi.

DARLITH CYMRAEG FLYNYDDOL CYMDEITHAS HANES LLAMBED

Daeth cynulleidfya luosog i Hen Neuadd y Brifysgol i glywed Mr Lloyd Jones, Ystrad Dewi yn rhoi hanes ei gynefin, sef Llanio a Phont Llanio, a'r bwrlwm fu yno ar un adeg yn ymwneud â'r fusnes menyyn a llaeth.



Gorsaf Pont Llanio, 1972. @TrawsLinkCymru

CYFLE I FOD YN LLYSGENHADON IFANC PENTREF CWMANN

Ydych chi'n berson ifanc sy'n byw ym mhentref Cwmann a'r cylch? Oes gennych chi syniadau am y math o weithgareddau y byddai pobl ifanc yn hoffi eu gweld yn y pentref?



RÔL NEWYDD I ANWEN AR GOMISIWN ATHLETWYR

Mae Anwen Butten o Glwb Bowlio Llambled wedi cystadlu yn sawl digwyddiad bowlio lawnt dros y byd, Gemau'r Byd, Iwerydd, Rhyngwladol a'r Gemau Gymanwlad. Mae wedi cystadlu mewn 5 Gem Gymanwlad: Manceinion 2002, Melbourne 2006, Delhi 2010, Glasgow 2014, Arfordir Aur 2018 ac am hynny mae wedi cael ei phenodi fel rhan o dîm ar Gomisiwn Athletwyr a fydd yn gweithio i baratoi ar gyfer y Gemau Gymanwlad ym Mirmingham 2022.



Gemau Gymanwlad 2014.

Ffili aros tan y papur nesa'?
- **clonc360.cymru**

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Mai Siwan Richards, 9 Cwrt Dulas, Llanbed 421534
Mehefin Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards a Lois Williams.

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyrr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Sian Roberts-Jones, Croesor 423313
Cwmsychpant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llanbed Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llanbed 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogrir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfôn pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llanbed.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Cofiwch Dryweryn

Mae'r wal ochor uchaf i Llanrhystud yn gyfarwydd i ni gyd yn yr ardal hon, mae'n siŵr – wal 'Cofiwch Dryweryn'. Bellach, greda i bod y wal yn enwog trwy Gymru gyfan. Oherwydd fandaleiddio o leiaf deirgwaith ar y wal o fewn ychydig wythnosau, mae'r slogan 'Cofiwch Dryweryn' wedi lledu fel pelen eira. A da o beth yw hynny.

Mae rhai o'r farn y dylid diogelu wal Llanrhystud mewn rhyw ffordd. Rwy'n gwbl gytûn bod ei difrodi neu ei fandaleiddio yn beth gwael. Ond graffiti yw'r slogan gwreiddiol yn y lle cyntaf. A phetai plastig neu rhywbeth yn diogelu'r wal, tybed a fydder peth wedi dod i gymaint o amlygrwydd yn y mis diwethaf? Bydd y bechgyn a'r merched ifanc aeth ati i'w hadnewyddu a'i hailbeintio eleni yn cofio mwy am y profiad o weithio fel tîm er mwyn adfer rhywbeth sy'n perthyn i gof cenedl nac y bydden nhw mewn ystafell ddosbarth neu ddarlith coleg.

Fwy nac unwaith, rwy' wedi gweld tystiolaeth pobol ar facebook bod rhywrai wedi dysgu am y tro cyntaf am hanes boddi Capel Celyn yn y 1960au. Doeddwn i heb gael fy ngeni bryd hynny, ond ces i'r fraint fawr o fod yn ddisgybl ysgol gydag Emyr Llywelyn yn athro arna' i. Dechreuas i'r ysgol yn 'star struck' fod "mab T. Llew Jones" yn mynd i 'nyssgu. Des i o'r ysgol yn llawn edmygedd i un o "Dri Tryweryn".

Er nad ydw i'n falch bod rhywrai yn sarnu'r wal ac yn bychanu'r pethe sy'n bwysig i ni fel Cymry Cymraeg, efallai ei bod hi'n dda o beth bod un genhedlaeth ar ôl y llall yn cael cyfle i ddysgu o'r newydd ein hanes ni. Cofiwch Dryweryn, a phob cymuned arall sydd wedi bod dan fygythiad. Ac os yw prynu tuniau o baent coch a gwyn, neu wisgo crys-t Cofiwch Dryweryn, yn mynd i'n helpu ni i ddysgu'n cymdogion o'n hanes, gwnawn hynny ar bob cyfiri!

Cloncen

Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

CYMRAG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Cyfarfod Blynnyddol
Papur Bro Clonc
Nos Fawrth 14eg Mai am 7 o'r gloch
Llew Du, Llanbed
Croeso cynnes i bawb

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr-coed, ffensio a nwyddau adeiladu o bob math. Tanwydd gan gynnwys nwy FloGas a glo caled a meddal o'r ansawdd gorau

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.



Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FUW

21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG

Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk

Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.

Plymio a Gwresogi
DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables • Installation
Maintenance • Breakdowns
Boiler Servicing • Sprinklers

07969 289679
d.doughtyplumbing@gmail.com



Lifestyle Kitchens Ltd

CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

E.JONES
PLUMBING & HEATING LTD

01570 480 108

07811 701 857

office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk



MAI

- 3-5 Penwythnos Dartiau Llanbed gyda Bob Anderson a Terry Jenkins ar y nos Wener ynghyd â chystadlaethau.
 4 Eisteddfod Gadeiriol Capel-y-Fadfa, Talgarreg.
 4 Cwmni Myrddin yn cyflwyno 'Dau Hanner Brawd' gan Nan Lewis ac Eric Jones yn Theatr Mwldan, Aberteifi am 7.30y.h. Tocynnau ar gael gan y theatr 01239 621200. Pris £12 i bawb.
 5 Tê Prynhawn yng Nghanolfan Bentref Cwmann i godi arian at taith Llion Herbert i Borneo. Tocynnau yn £15 ar gael drwy ffonio 421392.
 6 Ras Dyffryn Cledlyn yn dechrau o'r ysgol. Plant am 12.00yp a'r Ras Agored am 1.30yp
 6 Gŵyl Calan Mai Pumsaint. Sioe, Carnifal a mwy. Manylion pellach wrth Mair ar 01558 650309.
 8 Cyfarfod Apêl Eisteddfod 2020 Ardal Llanybi yn Ysgol y Dderi am 7.30yh.
 8 Fforwm Gyllido yn Neuadd Fictoria Llanbed am 11.00yb er mwyn cwrdd â sefydliadau a all gynorthwyo.
 10 Cyngerdd Ysgol Eglwys Llanllwni yng Nghapel Nonni Llanllwni am 7.00yh. Eitemau gan blant yr ysgol a Bois yr Hedyn gyda Owain Davies yn arwain.
 11 Rali C.Ff.I. Sir Gâr yn Nantyci, Caerfyrddin.
 11-12 Gŵyl Lyfrau Llanbed yn Hen Neuadd y Drindod Dewi Sant Llanbed gan ddechrau am 11.00yb.
 12 Cymanfa Ganu Plant ac Oedolion yn Soar Llambled am 5y.h.
 12 Taith Gerdded 3.4km Eglwys Sant Patrig Pencarreg. Dechrau a'r eglwys am 2.00yp i fyny'r mynydd i fwynhau picnig.
 14 Cyfarfod Blyneddol Papur Bro Clonc yn Y Llew Du, Llanbed am 7.00yh.
 16 Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghapel Shiloh Llanbed, gydag anerchiad am Lesotho gan Mrs. Pat Jones, Felindre, Cwmann am 7.00y.h. Croeso gwresog i bawb.
 19 Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr ym Methel Silian am 4.00y.p.
 19 Ras Fynydd Sarn Helen.
 19 Cystadleuaeth Bêl-droed Llanybydder ar y cae rygbi gan ddechrau am 10.00y.b.
 25 Carnifal a Mabolgampau Cwmann.
 26 Pwyllgor Pentref Llanybydder yn cynnal diwrnod It's a Knockout yn y cae rygbi am 12.30y.p.
 30 Clwb Stwffio 3 - brecwast arbennig yng Nghaffi Marc Lane am 10.00y.b. Tocynnau £12 gan Carys Lloyd Jones 07976 645957.
 30 Gŵyl Gwrw a Seidr Llanfair Clydogau 6.00-11.30yh.
 31 Gŵyl Gwrw a Seidr Llanfair Clydogau 5.00-11.30yh.

MEHEFIN

- 1 Gŵyl Gwrw a Seidr Llanfair Clydogau 2.00-11.30yh gyda barbyciw am 6.30yh.
 1 Rali C.Ff.I. Ceredigion ar fferm Ynysforgan, Lledrod.
 15 Gŵyl Bêl-droed Llambled ar gaeau'r brifysgol gan ddechrau am 10.00yb.
 23-29 Wythnos Carnifal Llanybydder.
 28 Hufen a Mefys yng Nghwb Bowllo Llanbed, elw tuag at Eisteddfod Ceredigion 2020, Artistiaid Ifanc ynghyd â Chôr Meibion Cwmann a'r Cylch.
 28 'Pnawn Pancws' yn Eglwys Santes Gwenog, Llanwenog rhwng 2y.p. a 7 y.h. Hanes yr Eglwys a drysau'r twr ar agor i'r cyhoedd. Bydd cyfran o'r elw yn mynd at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

GORFFENNAF

- 6 Sioe Amaethyddol Llanbed.
 22-25 Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd.
 25-28 Arddangosfa Gelf Llanfair Clydogau.
 27 Ffair Fwyd Llanbed ar dir y brifysgol gan ddechrau am 10yb.

AWST

- 3 Carnifal Llanbed.
 11 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
 18 Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog.
 24 – 26 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Ysgol Bro Pedr, Llambled.

MEDI

- 14 Ffair Ram ar gae pentref Cwmann.
 14-15 AGM C.Ff.I. Cymru yn Aberystwyth.
 28 Cyngerdd Dathlu Côr Cardi-Gân yn 20 oed yn Theatr Felinfach. Mwy o fanylion i ddod yn y misoedd nesaf!
 29 'Pop up Pub' yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch. Cyfle i wyllo gêm Rygbi Cymru yng Nghwpan y Byd. Elw tuag at Cronfa Leol Llanwenog a Llanwnnen Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

HYDREF

- 1 Cyfarfod Fforwm Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.
 12 Cwlwm, Delwyn Sion ac Ifan Gruffydd yn Ffreutur Coleg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant am 7.30y.h. £15 yn cynnwys lluniaeth ysgafn. Tocynnau gan Ann Morgan 07791 966122 neu Carys Lloyd Jones 07976 645957.
 18 Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion.
 31 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.

TACHWEDD

- 2 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
 25-26 Ffair Aeaf ar faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd.
 30 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Aston Hall, Wrecsam.

MAWRTH 2020

- 7-8 Gŵyl Adloniant C.Ff.I. Cymru.

Ysgol Carreg Hirfaen

Mae disgyblion Carreg Hirfaen wedi bod yn brysur iawn yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Llanbed. Llongyfarchiadau anferthol i Annie Thomas am gipio'r wobr gyntaf yng nghystadleuaeth canu unigol blwyddyn 3 a 4 ac i Brychan Williams am gipio'r ail wobr. Llwyddodd Rhodri Williams i gipio'r 3ydd gwobr yng nghystadleuaeth Alaw Werin blwyddyn 5 a 6. Cafodd y grŵp llefaru y 3ydd gwobr gyda chôr yr ysgol yn ennill y gystadleuaeth ac yn mynd ymlaen i gynrychioli Cylch Llanbed ar ddiwedd y mis. Pob lwc i blant y côr ac i Annie.

Llongyfarchiadau anferthol i dîm dawnio'r ysgol a fu'n cystadlu yng Ngŵyl Ddawns Rhanbarth Ceredigion yn Neuadd Ysgol Bro Teifi yn ystod y mis. Dawnsiodd y grŵp dawnio disgo yn arbennig a daeth y grŵp creadigol yn ail. Diolch yn fawr i Sioned Allan am hyfforddi'r plant.

Rydym wedi cael tamaid o 'baby boom' yng Ngharreg Hirfaen yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Mrs Carys Davies, athrawes ddosbarth 5 a 6 a'i gwŵr Rhydian ar enedigaeth eu merch fach Martha Grug. Mae Martha Grug wedi ymweld â'r ysgol a'r plant a staff wedi dwlu cael cwrdd â hi.

Llongyfarchiadau i Mrs Nia Evans, athrawes ddosbarth derbyn a blwyddyn 1, a'i gwŵr Brian ar enedigaeth Owain Hedd yn ystod y mis, brawd bach i Delun Aur. Edrychwn ymlaen yn fawr at

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Registered
Business

Peiriannydd Gwres Canolog
Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler

Ffôn: 07811052757

Ebost: dandrewj@icloud.com

- Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
 - Boileri a Ffyrnau Olew
 - Pympiâu Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
 - Paneli Thermal Solar
 - Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

Rhifyn Mehefin

yn y Siopau

6 Mehefin

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn

27 Mai

groesawu Owain Hedd i'r ysgol yn fuan. Estynnwn groeso i Miss Caryl Thomas sydd yn cyflenwi yn nosbarth Crwys ac i Mrs Heledd Francis sydd yn cyflenwi yn Fana dros y cyfnod mamolaeth.

Ar ddydd Iau, 21 Mawrth daeth holl blant Careg Hirfaen i'r ysgol yn eu sanau gwirion. Diolch i'r rhieni am gyfrannu yn hael iawn. Codwyd dros £250 tuag at Elusen Syndrome Down.

Carwn fel ysgol ddyddymuno yn dda i Mrs Dana Jones yn ei swydd newydd yng Nghartref Gofal Allt-y-Mynydd a diolch iddi am ei gwasanaeth arbennig i'r ysgol tros nifer fawr o flynyddoedd.

Tra'n ffarwelio â Dana, carwn groesawi Miss Ffion Harries o Giliau Aeron i'w swydd fel cynorthwydd dosbarth gyda ni yma.

Cafodd tîm pêl-droed merched a bechgyn Carreg Hirfaen ddiwrnod arbennig ar gaeau Blaendolau, Aberystwyth yn ystod y mis, wrth iddynt gystadlu yn Nhwrnament yr Urdd.

Gorffennodd y merched ar frig ei grŵp gan ennill y bedair gêm. Ymlaen a nhw i'r wyth olaf wrth iddynt chwarae yn erbyn Ysgol y Dderi. Enillodd y merched 4-1 i sicrhau lle yn y pedwar olaf yn erbyn Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Brwydrodd y merched yn galed iawn ond yn anffodus, fe wnaethant golli 3-1 ar ôl chwarae pêl-droed gwefreiddiol trwy'r dydd.

Bu'n ddiwrnod llwyddiannus iawn i fechgyn blyneddododd 5 a 6 yn Nhwrnament Pêl-droed yr Urdd, Ceredigion. Yn dilyn buddugoliaeth ar ôl buddugoliaeth, enillodd y bechgyn dawnus eu lle yn y ffeinal trwy guro tîm Bro Teifi o gôl i ddim yn ystod amser ychwanegol. Ymlaen i'r ffeinal yn erbyn Ysgol y Ddwyfan ac yn chwarae yn erbyn gwynt cryf yn ystod yr hanner cyntaf, sgoriodd y Ddwyfan gôl gynnar iawn o gic gornel anniben. Er i fechgyn Carreg Hirfaen reoli'r gêm yn llwyr o hynny ymlaen, ac er iddynt ddod yn agos iawn at sgorio ar sawl achlysur, gwrthod taro cefn y rhwyd wnaeth y bêl a cholli'r gêm o gôl i ddim oedd y canlyniad. Serch hynny, bu'n ddiwrnod penigamp i'r bechgyn a'r profiad yn destun balchder i'r athrawon a'r rhieni oedd yn bresennol.

Ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, cafodd Hari Jones o flwyddyn 5 ei ddewis ar gyfer carfan pêl-droed Ysgolion Sir Gaerfyrddin o dan 11. Mwynhaodd y profiad yn fawr.

Bu tîm trawsgwlad yr ysgol yn llwyddiannus ym mhencampwriaeth Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Roedd dros gant a hanner ym mhob ras. Cipiodd Casi Gregson o flwyddyn 6 y 6ed safle, Tudur Llwyd o flwyddyn 5 yr 11eg safle, Joshua Morris o flwyddyn 4 y 12fed

safle a Rhys Evans o flwyddyn 6 yr 20fed safle. Llongyfarchiadau hefyd i Jac Jones, Jay Williams, Gruffudd Roderick, Sioned Kersey, Niamh Nicholson, Isaac Davies a Lluan Haf a lwyddodd i orffen y ras mewn amseroedd gwych.

Llongyfarchiadau mawr i Trystan Bryn o flwyddyn 4 ar ei lwyddiant diweddar yn Eisteddfod yr Urdd. Pob lwc i ti yng Nghaerdydd, Trystan.

Fel rhan o waith dosbarth Caio ar y thema 'Cymru', daeth Mrs Slaymaker allan i drafod ei anturiaethau i Batagonia gyda'r plant. Braff oedd clywed am yr hanes a gweld cymaint o luniau hyfryd o Batagonia. Diolch yn fawr iawn i chi Mrs Slaymaker am roi eich amser.

Ar ddydd Iau, 11 Ebrill, bu plant dosbarthiadau Crwys a Sawel yn gwisgo gwisg ffansi ac yn dawnsio ar gyfer ein diwrnod thema ar gestyll a dreigiau. Cafwyd llawer o hwyl a sbri.

Llongyfarchiadau mawr i Mair Hopkins ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth cyfres o brintiau monocrom i flwyddyn 2 ac Iau ac i Deina Harri Evans am ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth serameg B1 3 a 4.

Neuadd Sant Iago

Enillwyr Misol Clwb 125 Mis Ebrill - 1: Dinnie Hardy, Cwrt-Deri, Cwmann, 09; 2: Graham Evans, Fferm Felin-Fach, Cwmann, 113; 3: Danny Davies, Brynteify, Cwmann, 72; 4: Steven Palmer, Gables, Cwmann, 124; 5: Graham Evans, Fferm Felin-Fach, Cwmann, 36; 6: Gwynfor Lewis, Bronwydd, Llambed, 105; 7: Llinos Jones, Araul, Cwmann, 17.

Diolch

Dymuna Maureen Evans Brynmaen, ddiolch o galon i bawb am y llu o gardiau, anrhegion, blodau a galwadau ffôn ar achlysur ei phenblwydd arbennig. Diolch yn fawr.

Diolch

Dymuna David John a Noleen ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad yn ddiweddar.

Enillwyr Misol Clwb 225 Pwyllgor y Pentref

Ebrill: £20 140 Wynford Thomas, Pantygwin, Cellan; £15 206 Tracy Edwards, Glynview, Cwmann; £10 199 Lesley King, Tafarn-Jem, Cwmann; £10 99 John Davies, Y Ddol, Cellan; £10 66 Norman Ayers, Brynbedw, Cwmann; £10 48 Amanda Evans, Annwylfan, Llanllwni; £10 92 Adrian Davies, Hafodlon, Cwmann.



Hari - pêl droed Ysgolion Sir Gâr.



Casi Gregson a ddaeth yn 6ed yn Nhrawsgwlad Dyfed.



Tîm Pêl-droed bechgyn Ysgol Carreg Hirfaen - 2il yng Ngheredigion



Tîm Pêl-droed merched Ysgol Carreg Hirfaen wedi cyrraedd rownd cyn derfynol.



Disgyblion Ysgol Carreg Hirfaen a fu'n rhedeg yn y gystadleuaeth Trawsgwlad.

Campws Iau

Diolch yn fawr iawn i Faer y Dref a Chyngor Tref Llambled am gynnal disgo a lluniaeth ysgafn i ddisgyblion y campws cynradd. Hyfryd oedd gwyllo'r plant yn mwynhau dawnsio a chymdeithasu yn ystod y prynhawn.

Daeth y Parchedig Mike Adams i gynnal gwasanaeth hwyliog gyda'r disgyblion a llwyddodd i gyflwyno neges hynod bwrpasol mewn modd ymarferol a diddorol – diolch yn fawr iddo.

Bu nifer o ddisgyblion y campws cynradd yn cystadlu yng nghystadleuaeth ffotograffiaeth y Rotari a llongyfarchiadau i'r canlynol: 1af: Summer Howden Shore; 2ail: Ellie Maie Jones; 3ydd: Katie Little. Diolch i Mr a Mrs Ramaya a llywydd y Rotari am ddod atom i'r ysgol i gyflwyno'r gwobrau a phob hwyl i Summer yn y rownd nesaf.

Llongyfarchiadau i Fflur Meredith ar gael ei dewis fel aelod o'r ddawns flodau yn Eisteddfod Genedlaethol 2020 – edrychwn ymlaen at gael dy weld yn perfformio ar y llwyfan Fflur.

Yng nghystadleuaeth Pêl-droed Sirol yr Urdd gwnaeth timoedd y bechgyn a'r merched yn hynod o dda gyda'r bechgyn yn cyrraedd y rownd gyn-derfynol – da iawn i bawb a diolch i Mr John, Mr Davies a Mrs Coombes am hyfforddi.

Daeth criw "Steppup" i gyflwyno stori'r Pasg ar ffurf Sioe bypedau i ddisgyblion y campws iau a chafwyd llawer o hwyl wrth ddysgu am wir ystyr y Pasg – diolch iddynt unwaith eto am ddod atom.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 3 a 4 gyfle i fynychu Gŵyl Chwaraeon ar yr Astro ger Canolfan Hamdden Llambled a chael cyfle i brofi amryw o chwaraeon.

Llongyfarchiadau i Henri Coleman am gwblhau cwrs i ddysgu'r Gymraeg yng Nghanolfan y Felin a diolch yn fawr i'r staff yno am eu gwaith clodwiw.

Daeth llwyddiant i nifer o ddisgyblion y campws yn Eisteddfod Gelf a Chrefft Sirol yr Urdd yn ddiweddar – llongyfarchiadau i'r canlynol. Gwaith lluniadu 3 a 4: 3ydd Fflur Meredith. Gwaith creadigol 2D ADY: 1af Grŵp Sgiliau Bywyd. Gwaith creadigol 2D ADY: 1af Grŵp Amber Canolfan y Bont. Gwaith 3D Tecstiliau: 1af Fflur Meredith. Gwehyddu 3 a 4: 2ail Fflur Meredith. Gwehyddu 7, 8 a 9: 1af Ifan Meredith. Gwaith creadigol 3D ADY: 1af Huw Wooding. Creu arteffact 7, 8 a 9: 2ail Ffion Mai Davies. Creu arteffact 7, 8 a 9: 3ydd Luned Haf Jones. Crochenwaith 7, 8 a 9: 2ail Elen Jones. Crochenwaith 7, 8 a 9: 3ydd Marged Jones. Gemwaith 3 a 4: 2ail Fflur Meredith. Gemwaith 7, 8 a 9: 1af Ifan Meredith. CAD 7, 8 a 9: 1af Catrin Daniel. CAD 7, 8 a 9: 3ydd Logan Jones. DT 7, 8 a 9: 2ail Ifan Meredith.

Ar ddiwrnod olaf y tymor, cynhaliwyd diwrnod di-wisg ar draws y campws 3-19 oed er mwyn codi arian i Apêl Llambled Eisteddfod 2020 – diolch i bawb a gyfrannodd at y swm anrhydeddus o £660.



Llongyfarchiadau i grŵp Amber Canolfan y Bont am gipio'r wobwr gyntaf am waith creadigol 2D ADY yn Eisteddfod Gelf a Chrefft Sirol yr Urdd.



Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed bechgyn Ysgol Bro Pedr ar gyrraedd y rownd gyn-derfynol yng nghystadleuaeth Sirol yr Urdd.



Cynhaliwyd Noson Wobrwy Ysgol Bro Pedr ar ddydd Iau, 11 Ebrill. Roedd y siaradwr gwadd yn gyn-ddisgybl sef Dafydd Lewis, gyda'r Cynghorydd Ifor Williams, Cadeirydd y Llywodraethwyr, a Jane Wyn, Pennaeth yr Ysgol. Yn y llun hefyd mae swyddogion yr ysgol sef Cari Jones, Cerys Pollock, Max Parry, Osian Jones, Cyffin Thomas, Siencyn Jones a Mari Lewis.



Trefnodd Clwb Rotari Llanbedr Pont Steffan Gystadleuaeth Ffotograffydd Ifanc ar gyfer disgyblion Ysgol Bro Pedr. Cyflwynwyd y gwobrau i'r enillwyr gan David Cooper, Llywydd y Rotari. Yn dod i'r brig yn yr adran iau oedd Summer Howden Shore yn gyntaf, Katie Little yn ail a Ellie Maie Jones yn drydydd. Hefyd yn y llun mae Carol Ramaya, Pwyllgor Ieuencid; Heulyn Roderick a Llinos Jones, Penaethiaid Cynorthwyol a Kista Ramaya, Llywydd Etholedig.



Enillwyr yr adran hŷn yng Nghystadleuaeth Ffotograffydd Ifanc y Rotari yn Ysgol Bro Pedr oedd llun o ben dant y llew gan Danny Jones yn fuddugol; Alexander Ursu yn ail a Corey Thomas yn drydydd. Cyflwynwyd y gwobrau gan Lywydd y Rotari, David Cooper. Hefyd yn y llun mae Kista a Carol Ramaya, Aelodau o'r Pwyllgor Ieuencid ac Emma Chapman, Athrawes Gelf.

Ceir lluniau buddugwyr Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd ar dudalen 20.



Cipiodd grŵp sgiliau bywyd Ysgol Bro Pedr y wobwr gyntaf am waith creadigol 2D ADY yn Eisteddfod Gelf a Chrefft Sirol yr Urdd.



Henri Coleman disgybl blwyddyn 4 wedi cwrs dwys yng Nghanolfan y Felin wrth ddysgu'r Gymraeg.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Paul a Bessie Williams a ddathlodd eu Priodas Ruddem yn ystod mis Ebrill. Iechyd da i chi eich dau i'r dyfodol.

Cofio Cwrt

Os gwyddoch am unrhywun sydd heb gael copi o Cofio Cwrt, llyfr Hanes Ysgol Cwrtnewydd, mae digon o gopïau ar gael trwy gysylltu ag Ysgol Dyffryn Cledlyn.

Llanwnnen

Sefydliad y Merched

Diwrnod i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi oedd 4 Mawrth i'r aelodau. Yn y prynhawn, ymunodd rhai â Pharêd Gŵyl Ddewi Llambled gan orymdeithio drwy'r dref ac yna ymgynnull yn Neuadd Fictoria i fwynhau diwylliant Cymru ar ei orau. Bu plant yr ysgolion cynradd lleol a Chôr Cwmann yn canu detholiad o ganeuon Cymraeg ac Emyr Lewis, y cyn-chwaraewr rygbi a mab un o'n haelodau, yn annerch y dorf. I ddilyn, mwynhawyd te Cymreig gan bawb.

Yn yr hwyr, buom yn gwledda eto, yn Y Pantri, Llambled gyda Delyth y tro hwn. Mwynhaodd pawb lond bol o gawl blasus gydag amrywiaeth o gawsiau Cymreig a bara ffres, saig arbennig yn cynnwys bara lawr a selsig Morgannwg, dewis o bwdinau traddodiadol a phicau ar y maen. Ar ôl y pryd, cynhaliwyd y cyfarfod misol gyda Carol Thomas yn llywyddu a thrafodwyd y materion busnes angenrheidiol. Yna beirniadwyd y gystadleuaeth fisol gan Delyth ac enillydd y mwg pertaf oedd Ceinwen Roach, gyda Gwen Davies yn ail ac Alice Davies yn drydydd. Cyn ymadael, diolchodd y Llywydd yn gynnes iawn i Delyth am bryd o fwyd arbennig ac i Ann Hughes am drefnu'r noson.

Nos Lun, 1 Ebrill cyfarfu'r aelodau am y tro cyntaf yn Ysgol Dyffryn Cledlyn a theimlai pawb fod y lleoliad yn un hwylus a dymunol iawn. Cynhaliwyd cyfarfod byr gyda Carol yn llywyddu a thrafodwyd y materion busnes angenrheidiol. Ken Lewis, cyn-brif arolygydd gyda Heddlu Dyfed-Powys oedd ein gŵr gwadd. Bu'n ein diddanu yn ei ffordd ddihafl ei hun drwy sôn am ei gefndir a'r cyd-ddigwyddiadau sydd wedi dod ar ei draws yn ei fywyd. Ar ôl clywed ei hanes difyr, beirniadodd Ken y gystadleuaeth fisol, sef brwsh dillad a'r enillydd oedd Avril Jones,



gyda Gwen Davies yn ail a Shân Lewis yn drydydd. Enillwyd raffl y noson gan Ceinwen Roach.

Bu dydd Mercher, 10 Ebrill yn ddiwrnod hanesyddol pwysig i Sefydliad y Merched Llanwnnen wrth i ni gynnal cinio mawreddog ganol dydd yng Nghegin Gareth i ddathlu 70 mlynedd ers sefydlu'r Gangen yn y pentref ar 9 Mawrth 1949. Wrth i ni gyrraedd, cyflwynodd Gareth Richards rosyn bach melyn i bawb, gyda logo Sefydliad y Merched Llanwnnen ar ffurf flag wedi'i rwymo iddo, er cof am ei fam a oedd yn gyn-aelod o Sefydliad y Merched Llanwnnen a'i fam-gu a oedd yn un o'r Sylfaenydd. Roedd hyn yn gyffwrddiad bach neis i'r digwyddiad ac fe'i gwerthfawrogydd yn fawr gan bawb. Daeth Tim Jones i dynnu llun a braf oedd gweld pawb yn gwisgo'r rhosynnau melyn.

Carol Thomas, ein Llywydd fu'n Feistres y Seremoni a dywedwyd gras cyn y pryd bwyd gan Ceinwen Roach. Ann Jones, Is-gadeirydd Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched oedd y Siaradwraig Wadd ac fe'i cyflwynwyd gan Carol. Yn ei haraith bu Ann yn ein hatgoffa o'r arweinwyr byd yn 1949 a'r dyfeisiau arloesol a oedd wedi gweld golau dydd y flwyddyn honno. Roedd Avril Jones, yn garedig iawn, wedi

gwneud y gacen dathlu a rhoddwyd yr anrhydedd o'i thorri i'r cyn-aelod hynaf, sef Mrs. Avarina Lewis, Talgrwn gynt. Fel arwydd o ddiolch, cyflwynodd Carol fasgedaid o flodau yr un i Ann ac Avril. Yna, talwyd pleidlais o ddiolch gan Ann Hughes, ein hysgrifenyddes. Ar ôl y cinio, bu'r aelodau yn edrych ar arddangosfa o hen luniau, a oedd wedi'u paratoi gan Carol.

Bydd yr aelodau yn ymgynnull nesaf mewn Parti Gardd yng Ngwesty Tyglyn, nos Fawrth, 7 Mai.

Priodas Berl a Ruddem

Llongyfarchiadau i Anthony a Delyth Jones, 4 Bro Llan ar ddathlu 30 mlynedd o fywyd priodasol [Priodas Berl] yn ystod mis Ebrill.

Llongyfarchiadau i Haydn a Mary Richards, Lowtre a ddathlodd eu Priodas Ruddem ar ddechrau mis Ebrill.

Gobeithio y gwnaethoch fwynhau'r dathlu a iechyd da i'r dyfodol.

Cydymdeimlo

Danfônwn ein cydymdeimlad llwyrat a dwysaf at Mrs Glenys Jones, Menna, Lyn a Dorian a'u teuluoedd yn dilyn marwolaeth John Jones, Penpompren yn ystod y mis. Bu'r angladd yn breifat yn Amlosgfa

Aberystwyth.

Cyn diwedd y mis, collwyd Mrs Lizzie Ann Jones o Flaenllain gynt ond roedd wedi ymgartrefi yn Hafan Deg ers rhai blynedd. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda'i mab a'r teulu ger Caerfyrddin yn ei profedigaeth.

Diolch

Dymuna Mrs Val Williams, Pleasant Hill, Llanwnnen a'r teulu ddiolch yn fawr i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad pan fu farw Dai. Cyflwynwyd sic o £765 i ward Meurig, ysbyty Bronglais er cof amdano. Diolch yn fawr.

Llangybi

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Helen Pugh a'i theulu yn eu profedigaeth ar farwolaeth ei thad yn ddiweddar.

Estynnir cydymdeimlad hefyd a holl aelodau teuluoedd eraill a ffrindiau yn eu colled.

Hamdden

Bydd Hamdden yn cyfarfod ar Fai 3ydd am 2.00y.p. yn Ysgol Y Dderi pryd y disgwylir Mr Tim Newly i arddangos lluniau o Lanerchaeron. Croeso i aelodau newydd.

Merched y Wawr

Bydd Merched y Wawr Y Dderi yn ymweld â Llwynygroes ar Fai 15fed am 2.00y.p. pryd y gwelir casgliad o flancedi ac yna ymlaen i Dregaron am de a sgwrs.

Adferiad

Dymunwn adferiad llwyr a buan i Dilwyn Pugh, Bro Ddelyn sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Glangwili.

Llanbedr Pont Steffan



Eglwys unedig yn Llambled ar ddydd Gwener y Groglyth yn cerdded drwy'r dref ac yn cyrraedd Noddfa am wasanaeth a lluniaeth dan arweiniad gan y Parch Densil Morgan.

Noddfa

Braf oedd gweld cynulliad teilwng o aelodau, rhieni a ffrindiau'r achos wedi dod ynghyd i Noddfa ar 7 Ebrill i oedfa arbennig yng ngofal yr Ysgol Sul wedi ei llunio gan Janet.

Mewn ffordd effeithiol ar lafar ac ar gân, bu'r plant a'r bobl ifanc yn diolch am gariad Mam ac yn dathlu gwyth y Gwanwyn a gorfoledd y Pasg. Cymerwyd rhan gan 17 o blant ac ieuencid yn ogystal â 7 o'r Mamau a phawb yn gwneud eu gwaith yn raenus. Roedd Gwenllian yn gyfrifol am y rhannau arweiniol a chyhoeddwyd yr emynau gan Lisa, Cerys Angharad a Sion. Y llfarwyr oedd Beca, Elan ac Osian Jones a chafwyd cyflwyniad o gerdd Abiah Roderick 'Prynhawn y Grog' gan Lowri, Helen a Nia Wyn ac adroddiad gan Tudur a Rhun sef 'Y Pethau Bychain'. Darllenwyd rhan o'r Gair gan Siân R. J. ac offrymwyd gweddi gan Llinos. Hefyd, pleser oedd gwrandio ar y plant cynradd yn canu sef Tudur, Rhun, Trystan Wyn, Trystan Bryn, Hari, Cai, Llew, Esther, Lynwen a Kara ac yn amlwg yn mwynhau eu hunain. Yn dilyn sgwrs yn yr Ysgol Sul yn ddiweddar, cafwyd llawer o hwyl yn gwrandio ar bob plentyn yn rhannu cyfrinachau am eu Mamau gan ddod â gwên i wynebâu pawb.

Swynwyd y gynulleidfa gan gyfraniad ein tri unawdydd sef Lisa, Elan a Trystan Bryn. I ddiweddu'r Oedfa, ymunodd y plant i ganu emyn yn dathlu'r Pasg ac yn clodfodi'r gwanwyn gyda phob un yn chwarae tamborin, triongl neu offeryn taro gyda brwdfrydedd mawr. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Delyth a bu Alwena yn cyfeilio i'r plant a'r bobl ifanc.

Diolchodd ein Gweinidog y Parch Densil Morgan i bawb am neges hyfryd dros ben a thalodd deyrnged i Janet am ei gwaith ac i Llinos a'r rhieni i gyd am eu cefnogaeth. Talodd ei werthfawrogiad hefyd i'r dynion am baratoi'r llwyfan.

Ategodd Janet ei diolch hithau i bawb oedd wedi cymryd rhan ac

am eu teyrngarwch a'u cefnogaeth i'r Ysgol Sul. Hefyd cyfeiriodd at lwyddiant mawr nifer o'r bobl ifanc mewn meysydd gwahanol gan longyfarch y canlynol: Trystan Bryn ar ennill tair gwobr gyntaf yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd ac o ganlyniad yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Elan ar gipio ail a dau drydydd, a Cerys Angharad ar gipio'r ail ac am ei llwyddiant pellach fel telynores yn ennill gwobr yn yr Adran Rhagoriaeth mewn Cerddoriaeth yn Seremoni Dathlu Diwylliant Sir Gaerfyrddin yn ogystal â gwobr i'r Talent Ifanc gorau dan 25 oed mewn unrhyw faes.

Hefyd Beca Roberts a'i brawd Osian ar eu llwyddiant mawr mewn Athletau yn cynrychioli Cymru a'u cefnder Sion am ei llwyddiant yntau mewn rasmus beiciau modur.

Mae talent anhygoel yn perthyn i'r bobl ifanc. Rydym yn ymfalchio yn eu llwyddiant ac yn dymuno'n dda iddynt i'r dyfodol.

Aeth pawb tuag adre gan deimlo eu bod wedi cael bendith a mwynhad wrth gyd-addoli gyda'r plant a'r bobl ifanc mewn Oedfa fendigedig.

Daeth aelodau Noddfa ynghyd nos Lun, 01 Ebrill ar gyfer digwyddiad arbennig iawn i ddathlu Gŵyl y Pasg. Roedd hwn yn gyfle i'n hatgoffa beth yw gwir ystyr yr Ŵyl a hefyd i gymdeithasu o amgylch y byrddau tra'n mwynhau pryd o fwyd yng nghwmni'n gilydd. Fe'n croesawyd yn gynnes gan ein Gweinidog Y Parch Densil Morgan ac yna clywsom adnodaau o'r Testament Newydd yn cyfeirio at baratodaau gwledd y Pasg. Wedi i ni ddweud gras gyda'n gilydd, bu pawb yn cyfranogi o'r prif gwrs ardderchog wedi ei baratoi gan y chwiorydd. Clywsom hanes Iesu yn golchi traed ei ddisgyblion ac yna mwynhawyd yr ail gwrs sef dewis o bwdinau chwaethus iawn. Ar ôl paned, daeth noson hyfryd i ben gyda'n Gweinidog yn gweinyddu'r cymun.

Cyn troi tuag adre, diolchodd Janet i Myfanwy ac i Ann am eu trefniadau manwl, i'r 8 darllenydd



Yn lansiad Llambled Di-blastig yn Neuadd Victoria, dyfarnwyd gwobrau i dri busnes. Cyflwynwyd tystysgrifau a phlaciau i'r Mulberry Bush, Creative Cove, a Watson & Pratts gan y Maer, y Cynghorydd Ann B Morgan.

Yn y llun o'r chwith y mae Lucy Watson a Ben Pratt, Watson & Pratt; Y Dirprwy Faer y Cyng. Rob Phillips; y Maer Cyng Ann Bowen Morgan; Cyng Dinah Mulholland, Cadeirydd Llambled Di-blastig; Stella Teasdale a Josie Smith, Mulberry Bush; Daryn Manchip, aelod; a Sandra Jarvis a Beatrice, Creative Cove.

ac i'r chwiorydd a'r brodyr am gyfrannu mor helaeth tuag at y bwyd. Yn olaf, ond nid y lleiaf, diolchodd i'n Gweinidog am ei gyfraniad gwerthfawr yntau tuag at y noson ac i'r brodyr am baratoi'r byrddau. Cytunai pawb ein bod wedi cael noson fendithiol a phleserus dros ben wrth ddod ynghyd i ddathlu digwyddiadau rhyfeddol y Pasg.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad diffuant â phawb sydd wedi colli perthnasau yn ystod y mis.

Bedyddwyr

Cofiwch am Gymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambled ar Sul, 19 Mai am 4 o'r gloch yng nghapel Bethel Silian dan arweiniad Emlyn Davies o Lanybydder ac Elfyn Davies, Bethel Cwm Pedol yn llywyddu. Croeso cynnes i bawb ddod ynghyd i ganu mawl i Dduw. Gwerthfawrogi eich cefnogaeth.

Diolch

Dymuna Sally a'r teulu 3 Bryn-yr-Eglwys ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth o golli gŵr a thad annwyl. Hefyd am y cyfraniadau tuag at Wasanaeth Ambiwylans Llambled er cof am Danny. Trosglwyddwyd £1,000. Diolch o galon i chi gyd.

Wythnos Cymorth Cristnogol

Cynhelir Wythnos Cymorth Cristnogol eleni rhwng 12 a 18 Mai. Bydd croeso mawr i bawb yng Nghapel Shiloh nos Iau, 16 Mai am 7 o'r gloch pan fydd Pat Jones, Felindre yn sôn am ei chysylltiad â Lesotho. Yn ystod yr wythnos, bydd aelodau Brondeifi yn cynnal eu Brecwast Mawr eleni eto i godi arian

at apêl Cymorth Cristnogol. Cadwch eich llygaid ar agor am fanylion pellach! Ac yna, ar ddydd Iau a dydd Gwener, 16 ac 17 Mai, bydd bwrdd casglu Cymorth Cristnogol yng nghyntedd y Co-op. Croeso i chi daro heibio.

Adran yr Urdd Llambled

Diolch i Carys Jones am gynnal noson o Chwaraeon/Gemau gydag aelodau'r adran ac i Amanda Jones am gynorthwyo. Pob hwyl i'r aelodau a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd sef Parti unsain yr adran, Parti Llefary'r aelwyd a deuawd Betrws ac Alwena. Diolch yn fawr iawn i Elin, Rhiannon a Lois am hyfforddi a chyfeilio.

Cymdeithas Hanes Llambled

Yng nghyfarfod mis Ebrill, daeth Simon Evans, Cwrtnewydd atom am yr ail dro yn ystod y tymor hwn, a hynny er mwyn rhoi'r ail ran o Hanes Plwyf Llanwenog; cyflwyniad cynhwysfawr a diddorol am gymeriadau a fu'n gysylltiedig â'r Plwyf mewn ryw ffordd neu gilydd.

Caed hanes Jac Parcyrrhos, gŵr a fu'n brwydro yn y rhyfel yn erbyn Napoleon, ac a gyfarfu â'r Duc Wellington ei hun.

Clywyd sut y bu'r newyn mawr yn yr 1840au, a'r prisiau uchel yn dilyn y rhyfel yn effeithio ar ffermwyr cefn gwlad, ac yn gorfodi llawer i godi pac a cheisio bywyd gwell yn yr Unol Daleithau. Pobl megis Margaret Evans o Gwrtnewydd, a droes ei chred at y Mormoniaid, a mentro i dalaith Utah, gan gyrraedd ym 1852 wedi colli sawl aelod o'r teulu yn ystod y daith. Ymfudodd Jenkin Lloyd Jones o Benralltddu, a bu yntau'n chwarae rhan flaenllaw yn y Rhyfel Cartref yn yr Amerig. Cadwodd ddyddiaduron, a rheini

Llanbedr Pont Steffan



Aelodau tîm rygbi dan 7 Llanbed yn edrych yn smart iawn yn eu cit. Diolch i'r noddwyr W D Lewis a'i fab, Bara Gwalia a Thrydanwyr S R Thomas.

ymhen amser yn cael eu cyhodd i mewn llyfr. Troes ei olygon wedi'r frwydr at fod yn weinidog gyda'r Undodiaid, a gweithio fel Cenhadwr.

Ŵyr i Jenkin Lloyd Jones oedd y cynllunydd enwog Frank Lloyd Wright a greodd adeiladau modern iawn, ymhell o flaen ei amser. Mae un o'r adeiladau yn Amgueddfa i'w waith erbyn hyn, a chofiw'n iddo roi enw Cymraeg ar nifer ohonynt.

Magwyd ffisegwyr enwog yn y Plwyf, yn arbennig y ddau frawd o Gwmsychbant, y Dr Dafydd Williams, a'i frawd Yr Athro Evan James Williams. Dafydd yn arbenigo mewn gwaith ymchwil yn berthnasol ag awyrennau, gan ddringo'n uchel yn y maes hwnnw; Evan James, neu 'Desin' fel yr adnabyddwyd ef, yn ffisegydd o fri yng nghyfnod yr ail Ryfel Byd, a'i waith ymchwil ef yn creu trobynt yn Rhyfel Môr yr Iwerydd.

Yn yr un modd, magwyd beirdd a llenorion ym mhlwyf Llanwenog, nid y lleiaf ohonynt oedd Cledlyn Davies. Bu ef a'i wraig yn teithio'r ardal gan gofnodi hanesion hwnt ac yma, a'u rhoi ar gof a chadw yn ei lyfr gwerthfawr, 'Hanes Plwyf Llanwenog'.

Diolchwyd yn gynnes i Simon am noson arbennig o ddiddorol, ac am ei gyflwyniad rhagorol ar Powerpoint gan y Cadeirydd, Selwyn Walters.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 21 Mai pan fydd Wieslaw Gdula yn rhoi hanes y teuluoedd o Wlad Pŵyl a ymsefydlodd yn ardal Llambod. Croeso cynnes i bawb.

Merched y Wawr Llambod

Ar ddydd Llun, 8 Ebrill, cafwyd prynhawn diddorol ac addysgiadwy yn cael ein tywys o amgylch Canolfan Ailgylchu L.A.S. yn Llanbed gan Tina Morris, y perchennog. Mae'r lle yma yn drysor i'r ardal ac i Geredigion. Dechreuom ein taith yn yr iard, lle mae'r cyhoedd yn dod a'u gwastraff i'w ddosbarthu i leoedd pwrpasol, gyda phob man wedi eu labeli yn glir. Yna, aeth Tina a ni i'r adeilad mawr lle'r oedd y gwastraff i gyd yn

cael eu wahanu. Dyna agoriad llygad i ni i gyd a gwneud i ni sylweddoli sut i ailgylchu ein sbwriel ni yn well yn ein cartrefi. Byddwn ni, fel cangen Merched y Wawr, yn llawer mwy gofalus yn y dyfodol. Mae eisiau i fwy lawer o grwpiau i fynd o amgylch y lle yma i wir sylweddoli faint yn fwy y gallem i gyd wneud i helpu'r amgylchedd a lleihau y maint o wastraff sydd yn parhau i gael eu danfon i dirlanw. Erbyn hyn mae'r gwastraff coed i gyd yn cael ei fadorri a'i ddefnyddio mewn peiriant 'biomass' i greu ynni i'w busnes ac i fusnesau eraill cyfagos. Cyn iddynt gael y peiriant yma, roedd yn gostus iddynt gael gwared ar y gwastraff coed.

Diolch i Tina a Maxine am ein tywys o amgylch a'n galluogi i wneud ein rhan i amddiffyn yr amgylchedd. Bydd cangen Merched y Wawr Llambod, a phob cangen arall yng Nghymru, yn gwneud eu rhan dros y misoedd nesaf i fynd allan mewn grwpiau i gasglu sbwriel yn eu hardal, fel rhan o ymgyrch ein Llywydd Cenedlaethol. Diolch hefyd i Tina am roi ystafell i ni i drafod materion busnes.

Cydymdeimlodd Elin, ein llywydd, ag Avril a Noleen. Collodd Avril ei chwaer yng nghyfraith, a Noleen, ei thad.

Cynhaliwyd cystadleuthau chwaraeon y Rhanbarth yn ddiweddar a dymunwn longyfarch Pat ac Eryl am ddod yn ail yng nghystadleuaeth dominos. Pob lwc i chwi eich dwy yng nghystadleuaeth Gŵyl Fachynlleth ar 18 Mai. Llongyfarchiadau hefyd i Elma, Elin a Mary am ddod yn drydydd yn dewis dau ddwrn a phob lwc i Dilwen a Morfudd sy'n cystadlu yn y Chwist yn Neuadd Felinfach.

Ar 11 Mai, cofiwch am Ŵyl Fai y Pum Rhanbarth yn Neuadd Felinfach. Pawb sy'n cystadlu i fynd a'u cynnyrch yno rhwng 10 ac 11y.b.

Ar 18 Mai, mae'r Ŵyl Haf Genedlaethol yn Machynlleth lle yr ydym yn gorfod gwneud penderfyniad ynglyn a chodi tal aelodaeth.



Y Parch Goronwy Evans gyda'i dystysgrif oddi wrth Uchel Siryf Dyfed.

Ar 29 Mehefin, mae Ffêt Ffrindiau Hafan Deg. Penderfynwyd cymryd bord gan ei fod yn gyfle i godi arian i'r gangen, gyda'r trefniadau i ddilyn.

Mae dyddiaduron a chardiau Nadolig ar werth - rhaid cysylltu a Mary os am archebu rhai.

Hefyd, pawb sydd wedi bod allan yn casglu sbwriel i roi gwybod i Mary. Byddwn yn cwrdd nesa ar 13 Mai pan fydd Luned Mair yn son am ei gwaith fel seicolegydd gyda'n cyfarfod blynyddol i ddilyn.

Pêl-droed Llambod

Llongyfarchiadau mawr i dîm dan 12 Llambod am ennill twrnamaint Penrhynoch ar eu hymweliad cyntaf â'r gystadleuaeth. Yr un oedd y canlyniad yr wythnos ganlynol wrth i'r tîm ennill yn nhwrnamaint Felinfach yn dilyn ei llwyddiant yno gyda'r dan 11 y flwyddyn cynt.

Llwyddiant hefyd ddaeth i dîm dan 10 Llambod yn nhwrnamaint Felinfach.

Bu twrnamaint Felinfach yn llewyrchus i nifer o unigolion hefyd wrth i Sara Jones ennill y wobwr am gôl geidwad y dydd, Gwennllian Jones yn ennill gwobr chwaraewr y dydd i ferched dan 14 oed, a Rhun Davies am ennill chwaraewr y dydd yn y gystadleuaeth dan 12.

Daeth llwyddiant pellach i Rhun Davies wrth iddo ennill y wobwr chwaraewr y chwaraewr yn Academi Caerfyrddin. Da iawn Rhun!

Braf gweld cynrychiolaeth o Llambed yn Sbaen wrth i Tomos Lloyd-Jones (dan 12 Llambod) gael profiad bythgofiadwy. Bu'n gapten ar ei gyd-chwaraewr o dîm cyn academi Caerfyrddin wrth iddynt deithio i gystadlu mewn twrnamaint ym Marcelona. Cyrhaeddodd y tîm rownd y chwarteri olaf ond colli i dîm cryf o Fecsico bu ei hanes. Gwnaethant yn arbennig o dda.

Diolch

Dymuna Sian, Mair a theulu'r diweddar Emma Williams, Gelli Garth, Llanddewi Brefi ddiolch yn ddiffuant am bod arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd



Tomos Lloyd-Jones yn gapten tîm cyn academi Caerfyrddin ym Marcelona.

iddynt yn eu profedigaeth o golli chwaer, modryb a hen fodryb hoffus yn ddiweddar. Gwerthfawrogwn y caredigrwydd, y galwadau ffôn a llu cardiau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod anodd.

Diolchwn hefyd am wasanaeth Canon Aled Williams a'r Parch Cen Llwyd, Mrs Eirios Davies ac i Cerdin a Rhys Price am eu cymorth.

Diolch hefyd am y rhoddion sydd wedi dod i law hyd yma tuag at Ambiwylans Awyr Cymru a Tir Dewi, trwy law Gwilym Price, ei Fab a'i Ferched, Stryd y Coleg, Llambod.

Priodas Dda

Ar ddydd Sadwrn y Pasg a'r haul yn gwenu'n braf, priododd Steffan a Sara Jenkins, Ceulan yng Nghapel y Groes, Llanwnnen. Llongyfarchiadau mawr a hir oes i chi eich dau.

Ar wellhad

Braf yw gweld Gwynfor Lewis, Bronwydd, Heol y Bont o gwmpas yn dilyn ei lawdriniaeth ar ei ddwy benlin yn ystod dechrau'r mis.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Angharad ac Alex, South Lodge, Heol Pontfaen ar enedigaeth merch fach ar ddiwedd mis Ebrill. Pob dymuniad da i chi fel teulu. Wyres fach i Menna a Granville, Garej Pontfaen.

Cyngor Tref Llambod

Parc yr Orsedd - Cais gan Bwyd Bendigedig: Daeth Julia Lim o Incredible Edible a Lucy Bird o'r Brownies i'r cyfarfod gyda chynllun ar gyfer tyfu ffirwythau a llysiau yn y parc. Cytunwyd y byddai'r pwyllgor parciau yn cwrdd â chynrychiolwyr o'r Brownies a'r Bwyd Bendigedig yn y parc i drafod y cais. Byddai'r cyngor yn derbyn penderfyniad y pwyllgor i fwrw ymlaen a diwygio'r cynllun.

Cynigiodd Cyng. Chris Thomas ei ymddiswyddiad fel cadeirydd y pwyllgor parciau a diolchwyd iddo am ei waith caled gan y Maer.

Ceisiadau Ariannol: Tâl aelodaeth

Llanbedr Pont Steffan



Taith Dydd Gwener gyda Cherddwyr Henoed Llanbed ar lan yr Afon Dulas ar Dir y Coleg gyda blodau hyfryd yn y cefndir.

Croeso i Gerddwyr £40. Ifanc o Galon - Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus: £280.51. YDCW: £20. GWG Ceredigion: £50.

Mary Jones, Landre

Dymuna Dorian, Delyth a'u teuluoedd ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar o golli mam, mamgu a mam-yng-nghyfraith annwyl iawn.

Gwerthfawrogwyd y cyfraniadau hael, er cof, tuag at Ymchwil Cancr Cymru. Derbyniwyd y swm o £1,700.

Diolch i'r Parchedig Goronwy Evans a Mrs Eurwen Davies am eu gwasanaeth yn y capel, i Delyth a staff y Pantri am y lluniaeth ac i Gwilym Price, ei fab a'i ferched am drefnu'r cyfan mor urddasol.



Gwenllian Jones, Tîm Pêl-droed Llanbed yn ennill gwobr chwaraewr y dydd i ferched dan 14 oed yn Nhwyrdd Felfach.

www.clonc360.cymru



Llanybydder

It's a Knockout

Mae Pwyllgor Pentref Llanybydder yn cynnal diwrnod "It's a knockout" ar 26 Mai am 12:30 yn y cae rygbi. Tîm o bedwar a bydd £50 i'r enillwyr. Adloniant nos yn y Llew Du gyda disco i'r plant am 6 o'r gloch ac yna "Tom Jones" tribute i ddilyn i'r oedolion. Bydd ocsiwn a raffl. Bydd yr arian yn cael ei rannu rhwng Pwyllgor Ieuenctid Pêl-droed Llanybydder, Celtic Gym a'r Pwyllgor.



Dyma gaseg Arwyn Thomas, Llysteifi, Llanybydder gyda'i eboles fach a gafodd ei geni ar 5 Ebrill. Ai dyma'r gyntaf yn yr ardaloedd hyn eleni?



Mrs Dorothy Lloyd, Cwm Aur, Llanybydder yn cyflwyno sic am £1,004 sef yr arian a roddwyd er cof am ei diweddar ŵr Aneurin Lloyd, gynt o Esgeringlis, Llanwnen. Rhodd i 'Crossroads Sir Gâr' a gynrychiolir gan Leanne Lewis, Rheolwr Gofal Dydd Crossroads a Karen Williams, Gweithiwr Cefnogol.

Clybiau Ffermwyr Ifanc



CFfI Ceredigion

Cynhaliwyd cystadlaethau Siarad Cyhoeddus CFfI Cymru ar 23 Mawrth ar faes y Sioe yn Llanelwedd. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cymryd rhan ac yn cynrychioli'r Sir gan lwyddo i sicrhau buddugoliaeth i Geredigion gyda'r Siarad Cyhoeddus Saesneg a thrydydd gyda'r Siarad Cyhoeddus Cymraeg ar ddiwedd yr holl gystadlu. Da iawn wir!

Dyma gweddill canlyniadau'r diwrnod: Siarad Cyhoeddus Saesneg: Tîm 16 oed neu iau Saesneg - 2il; Tîm 21 oed neu iau Saesneg - 3ydd; Tîm 26 oed neu iau Saesneg - 1af; Siaradwr gorau 26 oed neu iau - 1af Cennydd Jones, Pontsian. Ar ddiwedd y dydd, cyntaf i Geredigion.

Siarad Cyhoeddus Cymraeg. Tîm 14 oed neu iau Cymraeg - 3ydd; Tîm 16 oed neu iau Cymraeg - 3ydd; Tîm 26 oed neu iau Cymraeg - 2il. Ar ddiwedd y dydd, Ceredigion yn drydydd.

Clwb 200 Chwefror. 1: Emyr ac Ada Evans, Rhosybarcud, Llanilar. 2: Elin Calan Jones, Penbryn Mawr, Trefenter. 3: C.Ff.I. Pontsian. Mawrth. 1: Alwen Thomas, Y Wenallt, Ciliau Aeron. 2: Teulu Davies, Penlan, Llanrhystud. 3: Mererid Jones, Pantyrhen, Ciliau Aeron. Ebrill. 1: Emyr ac Elin Evans, Penlanlas, Talsarn. 2: CFfI Felinfach. 3: Rhian Evans, Bronwydd, Coed y Bryn.

Cynhaliwyd Cwis Iau'r Sir mewn dau leoliad sef Neuadd Pontsian a Neuadd Tregaron ar 8 Ebrill. Braf iawn oedd gweld cynrychiolaeth gref o nifer o glybiau yn cystadlu. Carem ddiolch i Is-lywydd y Sir, Ifan Davies am baratoi'r Cwis ar gyfer y gystadleuaeth. Cyhoeddwyd canlyniadau'r Cwis Iau ym Mhwyllog y Fforwm yn ddiweddar sef 1af: Felinfach B; 2il: Tregaron; 3ydd: Felinfach A.

Cynhaliwyd Gala Nofio'r Sir ar nos Wener, 5 Ebrill ac yn wir roedd Pwll Nofio Aberaeron yn llawn pysgod chwim a chyflym. Rhannwyd y wobwr am nofiwr cyflymaf y Gala rhwng Ifan Davies o GFfI Felinfach a Rhydian Ellis Jones o GFfI Llangwryfon. Yn cipio'r cwpan am y clwb buddugol am y 7fed tro'n olynol oedd CFfI Felinfach. Da iawn bawb!

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cymryd rhan yn sialens Cadeirydd y Sir eleni, sef



Caryl Haf, ar 6 Ebrill. Yr her oedd rhedeg, rhwyfo a seiclo cyfanswm o 37km,

neu ran o hynny, gan godi arian at elusen Alzheimers, CFfI Ceredigion, a'r clybiau unigol. Cafwyd diwrnod da gyda phawb wedi mwynhau bod yn rhan o'r sialens a diolch i bawb a fu'n cynorthwyo.

Dyddiadau i'ch dyddiadur: 4 Mai: Chwaraeon y Sir. 8 Mai: Pwyllgorau'r Sir. 11 Mai: Saethu Colomennod Clai ar Fferm Dolebolion, Ponrhydfendigaid. 12 Mai: Hyfforddiant Trin Gwlân. 1 Mehefin: Rali'r Sir ar Fferm Ynysforgan, Lledrod gyda Dawns i ddilyn gyda'r band Gwilym a Dafydd Pantrod. 2 Mehefin: Cymanfa'r Rali yng Nghapel Rhydlwyd, Lledrod am 7.30 y.h.



Enw: Kiera Cashel
Oed: 19
Pentref: Llanybydder
Gwaith: Syrfewr Coed i Gwasanaethau Coed Llanbed
Partner: Sengl
Teulu: Mam, Dad, fy chwaer Miriam a'r cŵn

Unrhyw hoff atgof plentyndod:
Dadcu yn clymu palet tu ôl y tractor a tynnu fi a Miriam o amgylch y caeau yn yr eira.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn:
Scooby Doo a Tecwyn y Tractor Bach Coch.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf:
Chwydu ar y carped yn ganol llawr Clwb Rygbi Llanbed. Y fenyw glanhau yn rhoi pregeth i fi, wedyn hala mam i lanhau e tu flaen pawb.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn:
I fod yn gwrtais i bawb.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
AC/DC Highway to Hell.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Milfeddyg.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Sai'n cal lot o rows, fi'n angel!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Adre.

Beth yw dy lysenw?
Kazz.

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?
Sister Michael off y rhaglen Derry girls.

Taset ti'n fisged, pa fath fyddet ti?
Rich tea, fi'n go boring.

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?
Asyn, oherwydd rwyf mor styfnig.

Beth yw dy arbenigedd?
Syrfewr coed i'r llinellau trydan.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Gweld gwahanol lefydd yng Nghymru.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?
Cael chillblains ar fysedd fy nhraed, a eczema ar fy ngwyneb yn ystod y gaeaf.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Mae'n dawel.



Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Sdim byd llawer i gael i wneud ma.

Pa mor wyrdd wyt ti?
90%.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg.

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?
Pobl sy'n greulon i anifeiliaid i gael yr un triniaeth a roddwyd i'r anifeiliaid.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Prynu Alpaccas a phraidd o valais black nosed sheep.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Clowns, yn enwedig y rhai puppets 'na.

Pryd llefaist ti ddiwethaf?
Pan odd yn rhaid i ni roi pepsi y pug lawr oherwydd odd hi di gwneud niwed i'w spinal cords.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Parti Nadolig gwaith.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Amser rhedodd Lady, y ci defaid, trwy'r blodau o ni wedi plannu yn yr ardd a torri nhw i gyd.

Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?
Na dim fi odd wedi bwyta fe.

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Gallu cysgu mewn yn hwyrach na 8 y bore ar y penwythnos.

Unrhyw ofergoelion?
Ddim rhoi esgidiau newydd ar y bwrdd, pedol ceffyl ar ben drws yn lwc dda.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Pasio prawf chainsaw.

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?
Dim sefyll lan i fwy o bobl.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Cael ci defaid dwl sydd angen wâc bob dydd.

Y cyngor gorau a roddwyd i ti?
Safia dy arian. Hala arian dy rieni.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Dadcu yn marw wythnos cyn nadolig yn 2017.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Caredig, doniol a sarcastic.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Volkswagen Polo.

Beth yw dy hoff wisg?
Pyjamas.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Beef burger, neu sglodion o Celtic, Aberaeron.

Beth yw dy ddiod arferol?
Dŵr neu pink gin a lemonade.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Throne of glass series.

Beth yw dy hoff arogl?
Sweet peas.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Darllen yn yr ystafell fyw.

Hoff gân ar dy ipod?
Jay and the americans come a little closer / blue suede hooked on a feeling.

Pa raglenni sydd ar dy Sky+?
Ma mam yn rhy dynn i gael Sky.

Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?
Mam, ma pawb yn nabod hi.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
Ma hwnna rhwng fy ngên neu fy nhrwyn.

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Fy llygaid.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Y cŵn a lluniau.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni?
Gallu sillafu a threiglo yn well.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Chicken burger o'r popty yn Llanybydder.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Gweld bod yr haul mas am unwaith.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Tatŵ dros fy nghefn i gyd, ath e mewn i'r miloedd...

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Teulu

Y dylanwadau mwyaf arnat ti?
Dadcu a Dad.

Y gwyliau gorau?
Butlins. Odd Anti Bet di mynd walk abouts am 4 awr a neb yn gallu ffeindio hi, a sai'n gwybod sawl botel o Sunny Delight odd mamgu 'di prynu i fi.

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw?
Ynys Skomer, Dyffryn Ogwen, Port Meirion.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
America, Seland Newydd a Gwlad yr Iâ.

Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?
Cerdded llwybr arfordir Cymru i gyd, gweld y Rockies yn America, a mynd i Husavic yng Ngwlad yr Iâ i chwilio am forfilod.

Arferion gwael?
Rhegi gormod.



Er bod Sul y Pasg yn syrthio'n hwyr yn Ebrill eleni, roedd y tywydd poeth a gafwyd ar gyfer ras heol 10 milltir Teifi yn Llanbed yn annisgwyl ac yn peri anawsterau sylweddol i ambell un o'r 129 o redwyr a ddaeth i'r llinell gychwyn. Hon yw ras gyntaf y flwyddyn ym mhencampwriaeth Clwb Sarn Helen a rheddodd 35 aelod y cwrs cyfarwydd i fyny'r dyffryn i Lanfair ac yn ôl lawr trwy Gellan. Cymaint yw atyniad y ras yng ngorllewin Cymru mai dim ond un ohonynt, Sion Price, lwyddodd i orffen yn y deg uchaf y tro yma, hynny mewn 60 munud a 21 eiliad. Am yr ail flwyddyn yn olynol, Rob Johnson o glwb Aberystwyth (57.11) ddaeth yn 1af, un o 6 i orffen dan yr awr. Tasha Sexton o glwb Sir Benfro (71.24) oedd y fenyw 1af. Er hynny, daeth nifer o wobrau i aelodau Sarn Helen - Carwyn Davies (66.29) a Kevin Hughes (66.39) yn 2il a 3ydd yn nosbarth y dynion dros 40, Meic Davies (67.00) yn 3ydd ddyn dros 50, Caryl Wyn Davies (74.57) yn fenyw gyntaf dan 35, Eleri Rivers (79.19) yn fenyw 1af dros 35 a Delyth Crimes (83.50 record bersonol) yn 3edd fenyw dros 45. Cafwyd ymdrechion da iawn hefyd gan Glyn Price (68.44) a Mark Rivers (69.02) a llongyfarchiadau i'r cystadleuwyr i gyd am herio'r pellter a gwres y dydd.

Roedd 6 o redwyr y Clwb hefyd ymhlith y 7 mil a redodd ras heol 10 cilometr Bae Caerdydd ar 31 Mawrth. Nigel Davies yn gorffen mewn 40 munud a 4 eiliad, hynny 4 eiliad yn unig ar y cloc o flaen ei gyd-aelod Mark Rivers. Gwnaeth Eleri Rivers (44.35) yn dda dros ben i ddod yn 7fed yn ei



dosbarth oedran a roedd gan Mathew Walker (47.17) a Liz Pugh (57.02) le i fod yn fodlon iawn hefyd.

Gall y Clwb fod yn hyderus y caiff ei gynrychioli a pherfformiad safonol pa bryd bynnag y bydd Caryl Wyn Davies yn rhedeg. Yn marathon Manceinion ar 7 Ebrill, daeth hi'n 29ain allan o 1449 yn ei dosbarth ac yn y pymtheg cant cyntaf wrth iddi ymuno a 13,652 o redwyr a gorffen mewn 3 awr 15 munud a 44 eiliad. Fe wisgwyd lifrau'r Clwb gyda'r un balchder hefyd gan Joanna Rosiak (4.41.44) yn ei marathon gyntaf yn Llanelli wythnos yn ddiweddarach.

Y mae llwybrau llethrog a choediog Nantyrarian wedi bod yn leoliad poblogaidd ymhlith trefnwyr rasys ers blynyddoedd lawer. Cynhaliwyd hanner marathon Y Llwybr Arian yno am yr ail waith ar 22 Mawrth.



Aeth rhai o redwyr y Clwb yno a chafodd George Eadon un o'i ganlyniadau gorau gan ennill mewn 1 awr 43 munud a 2 eiliad. Aelod sy'n gyfarwydd a gorffen yn gyntaf yw Jessica Bruce ond ail oedd hi'r tro yma (1.46.02). Cafwyd ymdrechion da hefyd gan Eilir Evans (2.00.25) a Steven Holmes (2.05.33) tra bod Pamela Carter (2.34.05) wedi parhau ei pharatoad ar gyfer marathon Llundain yn y ras hon a Jane Holmes (2.58.32) wedi rhedeg ei 3ydd hanner marathon o'r flwyddyn. Roedd ras 1.6 milltir hefyd i blant a llongyfarchiadau i Maddie Eadon ac Alis Evans ar eu hymdrechion.

Fel Nantyrarian yng Ngheredigion, mae Coed y Brenin yng Ngwynedd yn ganolfan cyfarwydd i rasys llwybr ac yno y bu Delyth Crimes yn rhedeg ras 8.5 milltir ar 13 Ebrill. Anaml y bydd Delyth allan o'r tri cyntaf yn ei dosbarth a daeth hi'n 3ydd eto yn y ras hon mewn 1 awr 28 munud a 7 eiliad.

Ras sydd yn crwydro oddi ar yr heol hefyd yw ras 10 cilometr newydd Castell Newydd Emlyn a gynhaliwyd ar 7 Ebrill. Aeth Roger Mence (1 awr 22 munud), Rebecca Doswell (1.23) ac Elisha Jones (1.24) yno ar ran y Clwb gan deilyngu'r wobwr a gawsant wrth orffen - waffles Tregroes.

Nid 'pa mor gyflym' yw'r cwestiwn ym mhob cystadleuaeth redeg ond 'pa mor bell'. Ar 24 Mawrth ym Mharc Aberdâr, y dasg oedd rhedeg rownd

y parc am 7 awr. Ken Caulkett oedd yr un a redodd bellaf (38 milltir) a bydd 26 milltir ei gymar, Jenny, o gymorth iddi hithau hefyd yn marathon Llundain. Un arall fu'n chwilio am rywbeth gwahanol i ras gonfensiynol oedd David Thomas wrth iddo droedio am 7 awr dros y Sgyrriid Fawr, Pen y Fal (y Sugar Loaf) a'r Blorens ger y Fenni ar 30 Mawrth. Aelod arall o'r Clwb i ddringo Pen y Fal rai dyddiau'n hwyrach ar 2 Ebrill oedd Mitchell Readwin. Rheddodd ras fynydd Pen y Fal mewn 1 awr 15 munud a 5 eiliad tra llwyddodd ei fab Christopher i ddod yn ail yn y ras ieuencid dros y llethrau cyfagos.

I'r rhai sy'n hoffi cyfuno rhedeg a beicio, mae Campau Caron yn parhau i gynnig digwyddiadau. Ar 24 Mawrth, cynhaliwyd Duathlon yn Nhregaron oedd yn golygu rhedeg 5 cilometr, beicio 15 milltir ac yna rhedeg 3 cilometr i orffen. Dim syndod mai seren treiatlon y Clwb, Gareth Hodgson, oedd y buddugwr mewn 1 awr 8 munud a 47 eiliad. Y fenyw gyntaf i orffen oedd Pamela Carter (1.54.16) a hynny rhyw 24 awr wedi iddi redeg yn Nantyrarian. Cafwyd brwydr glos ar adegau rhwng Eric Rees (1.31.54), un arall o 'ddynion haearn' y Clwb, a Mitchell Readwin (1.38.32) yn ei ras gyntaf o'r fath. Gwell gan rai oedd rhannu'r gwaith ac yn y categori i dîm o feiciwr a rhedwr, Dylan Lewis a Llewelyn Lloyd ddaeth i'r brig (1.15.26).



LYN JONES

"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn



01570 481029

Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL



ARWYN VOB ACCOUNTANCY LTD.

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

**Ffoniwch ni ar
07557 448234**

neu

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Drefach a Llanwenog

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Diolch i'r unigolion fu'n cystadlu yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd eleni. Bu nifer yn cystadlu mewn gwahanol gystadlaethau a braf oedd clywed fod naw gwobr wedi ein cyrraedd yn yr ysgol. Da iawn i bawb wnaeth gystadlu a dyma'r canlyniadau buddugol: Gwaith creadigol bl 2 ac iau – 2il Quinn Brown. Print Monocrom bl 2 ac iau – 3ydd Elliw Grug Davies. Print Monocrom bl 3 a 4 – 3ydd Mari Rees. Print Monocrom bl 5 a 6 – 1af Jac Rees. Print Monocrom bl 5 a 6 – 3ydd Megan Davies. Print lliw bl 5 a 6 – 1af Megan Davies. Cyfres o brintiau monocrom bl 2 ac iau – 2il Elliw Grug Davies. Cyfres o brintiau lliw bl 2 ac iau – 2il Elliw Grug Davies. Gwaith Creadigol ADY bl 3-6 – 1af Madi Potter. Llongyfarchiadau mawr i bawb a phob dymuniad da i Madi, Jac a Megan yn y genedlaethol. Gwych iawn.

Bu rhaid gohirio cyfarfod Cymdeithas Hŷn Llanwenog tan ddechrau mis Ebrill. Braf oedd gwahodd 21 o'r henoed atom i Neuadd yr ysgol am brynghawn difyr o adloniant a mwynhad. Cynhaliwyd cyfarfod gan yr henoed yn gyntaf, cyn i ddisgyblion Dyffryn Cledlyn eu diddanu trwy ddawnsio, canu ac adrodd. Braf oedd gweld yr hen a'r ifanc yn ymuno gyda'i gilydd i ganu caneuon traddodiadol. Edrychwn ymlaen i'ch gweld y flwyddyn nesaf yn barod.

Bu ffilm Eco Ysgol Dyffryn Cledlyn yn rhan o arddangosfa "Dewch i Ddathlu! Dysgu creadigol trwy'r Celfyddydau" ym Mae Caerdydd yn ystod wythnos gyntaf mis Ebrill. Roedd y Ffilm a grëwyd ar thema "Ein Côd eco ni" yn rhan o'r arddangosfa o dan adain dysgu creadigol trwy'r celfyddydau, o dan y Cyngor Celfyddydau Cymru. Diolch i Ian a Beth o CISP Multimedia am eu gwaith.

Da iawn i dimoedd yr ysgol am gystadlu yn nhwrmamaint Pêl-droed yr Urdd ar ddechrau Ebrill. Bu tîm y merched a thîm y bechgyn yn cystadlu'n frwd gan ennill sawl gêm, colli rhai a rhai gemau cyfartal. Da iawn chi am eich ymdrechion a daliwch ati. Rydyn ni'n falch iawn ohonoch.

Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ddigon ffodus i gyd-weithio gyda cwmni CISP Multimedia eto ym mis Ebrill, gan weithio ar gynhyrchu ffilm ar thema "Ar dy Feic". Bu'r disgyblion yn rhannu'r cyfrifoldebau o ffilmio, trosleisio a sgriptio. Byddant yn mynd i Lanelli ar ôl y Pasg i gael y cyfle i olygu'r gwaith mewn stiwdio yn Llanelli. Rhan o waith Ffilm Cymru yw'r Prosiect ac mae'r disgyblion yn ffodus iawn o dderbyn y cyfle i weithio gyda'r cwmni proffesiynol yma.

Braf oedd gwahodd Megan Williams o S4C a'r tywydd atom i



Disgyblion Ysgol Dyffryn Cledlyn yn diddanu Cymdeithas Hŷn Llanwenog.

drin a thrafod y tywydd. Cafwyd bore bendigedig yng nghanol prysurdeb rhagolygon ac arbrofion tywydd. Bu'r disgyblion yn rhannu eu gwybodaeth am yr hyn a fuont yn gwneud gyda'r tywydd, a dangos nhw'n darlledu. Diolch yn fawr Megan am rannu eich gwaith gyda ni.

Y Gymdeithas Hŷn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth ar 3 Ebrill yn Ysgol Dyffryn Cledlyn a phlant yr ysgol yn ein diddanu. Roeddent o'r lleiaf i'r hynaf a graen ar eu gwaith. Cafwyd prynghawn i'w gofio a diolch i'r plant a'r athrawon am eu gwaith da.

Daeth mis Ebrill yn heulog braf i ddechrau ar ein tripiâu haf. Gallem ddim wedi dymuno gwell twydd ar ddydd Mercher, 10 Ebrill. Aethom i Amgueddfa Llambled a diolch i Yvonne, Eifion a Sian am y lluniaueth. Yna, ymlaen i Dregaron aros am ysbaid ac ymlaen wedyn i Soar y Mynydd ag i lawr at Lyn Brianne, Llanymddyfri ac ar draws i Rhosmaen, Llandeilo am swper i orffen y dydd.

Fe fydd trip mis Mai ar yr 8fed i Sir Benfro. Enwau os dymunwch ddod i Jane Jones ar 480332.

Eglwys Llanwenog

Rydym fel aelodau yn llawenhau wrth glywed y newyddion bod y Parch. Ganon Eileen Davies, Gwndwn, wedi ei dyrchafu i swydd Archdeon Ceredigion. Bydd yn cychwyn ar ei dyletswyddau newydd ym Mis Mehefin a bydd gwasanaeth arbennig i ddathlu'r achlysur yn Nhy Ddewi. Anodd meddwl am berson sy'n fwy teilwng o'r teitl nag Eileen. "Teg edrych tuag adref".

Cynhaliwyd bedydd Henry, mab Charlotte a Matt, Llambled, brawd bach Alfie ac ŵyr i Alan a Wendy Mellor, Rhiwsion Isaf yn ddiweddar. Gweinyddwyd gan y Parch Bill Fillery. Roedd yr Eglwys wedi ei gwisgo'n odidog ar gyfer y Pasg mewn blodau tymhorol.

Croeso adref i Osian Davies, Fronheulog wedi iddo dreulio cyfnod ar brofiad gwaith mewn fferm ar y 'Scottish Borders'. Roedd yno ddiadell o dros dair mil o ddefaid



Disgyblion Ysgol Dyffryn Cledlyn a fu'n cystadlu yn Nhwrnamaint Pêl-droed yr Urdd



Disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cyd-weithio gyda Chwmni CISP Multimedia ar gynhyrchu ffilm ar thema "Ar dy Feic".

gyda digonedd o waith yno dros y cyfnod wyna. Mae Osian yn fyfyrwr blwyddyn gyntaf yng Ngholeg Gelli Aur, Caerfyrddin.

Sioe Geir a Beics

Bydd digwyddiad gwahanol ym mhentref Drefach ar ddydd Sul, 23 Mehefin pan cynhelir Sioe Geir a Beics, cerbydau'r gorffennol a'r presennol. Bydd angen cofrestru rhwng 9-10y.b. a bydd y daith yn dechrau am 12.30y.p. Bydd Ocsiwn 'Reid mewn un o geir rali Scott Williams Motorsport'. Os am ragor o fanylion, cysylltwch dros e-bost sioeair@gmail.com.

Bydd elw'r diwrnod yn mynd tuag at Cronfa Leol Llanwenog a Llanwnnen Eisteddfod Ceredigion 2020 a Neuadd Drefach.

Clwb Clonc

Mai

- £25 rhif 401: Mrs Elma Phillips, Cellan.
- £20 rhif 138: Mrs Eirlys Evans, Maesycrugiau.
- £15 rhif 475: Mrs Elizabeth Warmington, Llambled.
- £10 rhif 461: Bryn Thomas, Cwmann.
- £10 rhif 66: Cyng. Odwyn Davies, Llangybi.
- £10 rhif 46: Mrs Alice Davies, Llanwnnen.
- £5 rhif 241: Ms Lena Jenkins, Aberaeron.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Profiad newydd i naw o ferched yr ysgol oedd cystadlu yn Eisteddfod y Sir ym Monrhydfendigaid, yng nghystadlaethau y Parti Canu.

Canodd y merched yn swynol gan gael beirniadaeth gadarnhaol iawn. Y merched oedd Elan, Mared, Eirwen, Lena, Efa, Einir, Erin, Elli a Liws. Da iawn chi. Diolch i Mrs. Bethan Hopkins-Jones am gyfeilio iddynt.

Llongyfarchiadau i Einir George am ei llwyddiant yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion. Cafodd ail a thrydydd yn yr adran ffotograffiau i blant Blwyddyn 2 ac Iau. Da iawn ti Einir!

I orffen ein sesiynau Urdd, aethom am drip i Xcel yng Nghaerfyrddin gan gael sesiwn o fowlio a swper. Mwynhaodd pawb mas draw.

Daeth nifer o'r plant mewn gwisg biws i'r ysgol er mwyn cefnogi'r Ysgol Feithrin ar ddiwrnod dathlu penblwydd "Dewin a Doti" yn ddeg oed.

Cymerodd rhai plant ran yn y sioe "Gymanfa Cwmffradach" yn Llanfihangel-ar-arth yn ddiweddar gan gael noson hwylus iawn.

Treuliodd 11 plentyn dridiau yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog gan gael amser da yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau a chymdeithasu â phlant o ysgolion eraill. Daethant yn ôl ar brynawn Mercher wedi blino'n lân! Diolch i Miss. Evans am fynd gyda'r plant.

Fel rhan o waith thema'r tymor ar "Ein Cymuned", aeth plant y Cyfnod Sylfaen ar daith lawr i Bryndulais er mwyn sylwi ar wahanol gartrefi a busnesau yn yr ardal. Yna cafwyd amser yn chwarae yn y parc. Cafwyd amser da.

Cofiwch am ein cyngerdd yng Nghapel Nonni ar Nos Wener, 10 Mai am 7 o'r gloch. Artistiaid y noson fydd Bois y Rhedyn a phlant yr ysgol, yr Arweinydd fydd Mr. Owain Davies, Gwndwn a'r Llywyddion fydd Mr. a Mrs. Eirwyn Davies, Dolgorse. Croeso cynnes i bawb.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol mis Ebrill: 1af -£10 - Harvey, Cnwylili, Llanllwni; 2ail - £5 - Einir George, Haulfryn, New Inn; 3ydd - £5 - Lyn Jones, Lakefield, Llanybydder.

Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Clwb 100 mis Ebrill. 1: £15 Mary Davies (44). 2: £10 Peter Hector Jones (38). 3: £10 Ken Howells (93). Diolch i bawb am gefnogi.

Dydd Gwener y Groglith bu gwasanaeth am 10.30yb, a drefnwyd gan athrawon ac aelodau'r Ysgol Sul. Ein harweinydd oedd y Parch. Ganon Aled Williams.

Fe'n harweinwyd trwy oriau olaf bywyd Iesu Grist; y swper olaf yn y festri; gardd Gethsemane; mynydd

Golgotha, a phawb yn dilyn y Groes ymlaen i'r allor. Darllenwyd yr hanes gan y plant, y bobl ifanc a'u rhieni. Fe grewyd naws arbennig yn yr Eglwys, ac yng nghanol prysurdeb bywyd, peth da oedd cael ein hatgoffa o bwysigrwydd y Groglith. Diolch i Bethan a Meinir am drefnu, ac i'r Parch Aled Williams am wasanaethu.

Cafwyd paned a danteithion i ddilyn yn y Neuadd.

Mae aelodau'r Eglwys yn dymuno llongyfarch y Parchedig Ganon Eileen Davies ar ei dyrchafiad i fod yn Archddiacon Ceredigion. Pob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd.

Undeb y Mamau

Roedd ein cyfarfod mis Ebrill yn dod â'r tymor i ben. Croesawyd Mrs Yvonne Davies o Drefach. Ei hanerchiad oedd hanes stryd fawr Llanbed yn y gorffennol. Trwy gyfrwng lluniau a chof gwyb, aethon ar daith ddiddorol dros ben lawr y stryd ochr chwith (wrth edrych tua chloc y dre). Fe ddysgon am bob siop, tafarn, ac adeilad hanesyddol, ac fe ddaeth y stryd yn fyw iawn i'r aelodau. Diolch yn fawr Yvonne, am orig ddiddorol ac addysgiadol iawn. Edrychwn ymlaen am fynd ar daith yr ochr dde i'r stryd tro nesa!

C.F.I. Llanllwni

Helo, a gobeithio bod pawb yn mwynhau'r tywydd braf, ond gobeithio na wnaeth yr holl haul ddim toddi eich wyau pasg! Yn sicr, dyma ein misoedd prysuraf ni fel mudiad y ffermwyr ifanc gyda paratoadau y rali mewn 'full swing'. I ddechrau rhifyn mis yma, hoffwn gyhoeddi elw'r gyngerdd blyneddol a chafodd ei gynnal ar 15 Mawrth, sef £1,182.04.

Mis yma, mae'r clwb wedi bod yn ymwneud a nifer o bethau amrywiol iawn. Ar 2 Ebrill, bu PSCO Helen Fender allan gyda'r clwb fel aelod o'r Tîm Troseddau Gwledig er mwyn pwysleisio bod ei gwaith hi yn hanfodol mewn cymunedau cefn gwlad.

Ar 9 Ebrill, ymwelodd y clwb a Fferm Gaws Hafod, Bwlchwernen yn Llwyn y Groes a brofodd i fod yn noson addysgiadol a diddorol iawn.

Rhaid cymryd y cyfle i longyfarch un o'n aelodau sef Owain Davies ar ei lwyddiant yn Niwrnod Siarad Cyhoeddus Cymru. Cafodd Owain ei anrhydeddu fel y Siaradwr Gorau yn yr Adran Hŷn.

Digwyddiad arall sirol sydd wedi pasio erbyn hyn yw'r Diwrnod Gwaith Maes a chafodd ei gynnal ar 6 Ebrill. Mae'n werth nodi bod y clwb wedi derbyn cryn dipyn o lwyddiant yn y diwrnod Gwaith Maes. Dyma'r canlyniadau i chi. Stocmon Hŷn: 1 Anwen Jones;



Aelodau CFFi Llanllwni yn ymweld â Fferm Gaws Hafod, Bwlchwernen yn Llwyn y Groes.



Aelodau CFFi Llanllwni a fu'n cymryd rhan yn Her y Llysgenhaddon - Her y 3 Chopal!



Plant y Cyfnod Sylfaen Ysgol Llanllwni ar daith i Bryndulais er mwyn sylwi ar wahanol gartrefi a busnesau yn yr ardal.



Disgyblion Ysgol Llanllwni ymhlith eraill yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog.

Llanllwni

Diogelwch Fferm: 1 Llanllwni (y tîm oedd Aled Jones, Carwyn Lewis, Bestan Jones a Alwyn Evans); Arwerthu: 2 Dafydd Evans; Saethu Clau dan 17: 1 Alwyn Evans a cydradd 2 i Tomos Jones.

Bellach rydym fel aelodau'n prysur ymarfer ar gyfer Rali'r Sir sy'n cael ei chynnal ar 11 Mai, ar Faes y Sioe Nant y Ci, os ydych chi chwant wac fach ar brynhawn Sadwrn.

Ac i orffen, dyma ychydig o ddyddiadau ichi gael rhoi yn eich dyddiaduron ar gyfer y mis nesaf.

Ar Nos Wener, 17 Mai, rydym yn cynnal ein Helfa Drysor.

Ar Nos Wener, 24 Mai, rydym yn cynnal ein cinio clwb blynyddol. Os ydych eisiau dod, mae angen rhoi eich enwau i Sara Thomas cyn gynted ag sy'n bosib ar 07875 417544.




Einir George a fu'n llwyddiannus yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd, Ceredigion gan ddod yn ail a thrydydd yn yr adran ffotograffiau i blant Blwyddyn 2 ac Iau.



Rhai plant Ysgol Llanllwni a gymerodd ran yn y sioe "Gymanfa Cwmffradach" yn Llanfihangel-ar-arth.



Aled a Betsan, CFfi Llanllwni - Tîm Diogelwch Fferm ar Ddiwrnod Gwaith Maes y sir.



Anwen Jones, CFfi Llanllwni enillodd y Stocmon Hŷn ar Ddiwrnod Gwaith Maes y sir.

Yn y Gegin gyda Gareth



Melysfwyd Mis Mai

Gyda dau Wyl y Banc y mis yma, mae'n gyfle gwych i dreulio amser gyda'r teulu, ac wrth gwrs, mae bwyd yn rhan bwysig o hynny bob amser. A ie wir, mae'n rhaid cael pwddin! Felly'r mis yma, rwyf am gynnig casgliad o'm hoff rysetiau i'w paratoi. Maent yn flasus, yn hawdd, ac mae yna ddigon i bawb!

Mwynhewch Mis Mai,
Gareth

Pwddin 'Malibu'

1 pecyn 'gelatine'	200ml Crème fraiche
Tun 400ml llaeth cneuen goco (Coconut milk)	
25g siwgrwr	4 llwy fwrdd o 'Malibu'
1 mango	½ pînafal
1 ffrwyth kiwi	

Dull

1. Toddwch y gelatine mewn 100ml o ddŵr.
2. Rhowch y crème fraiche, llaeth cneuen goco, siwgrwr a'r Malibu mewn powlen, a'u curo; yna i mewn â'r gelatine.
3. Gosodwch mewn disgl, a'i roi yn yr oergell am 4 awr.
4. Torrwch y ffrwythau yn ddarnau, a'u gosod ar dop y pwddin, a gweinwch.

Crème Brulee Hawdd

200ml iogwrt groegaidd trwchus, blas sinsir	
200ml crème fraiche	2 eirinen
50g grawnwyn	100g llus
50g siwgrwr demerara	

Dull

1. Cymysgwch yr iogwrt a'r crème fraiche.
2. Torrwch y grawnwyn a'r eirin yn ddarnau, a'u gosod gyda'r llus yng ngwaelod 4 disgyl ramekin.
3. Gwasgarwch yr hufen drostynt, a'u sgeintio â'r siwgrwr, a'u rhoi yn yr oergell am 30 munud.
4. Rhowch y dysglau o dan y gril i'r siwgrwr doddi, a gadewch am ychydig cyn gweini.

Pavlova

(Bob amser yn ffefryn gan bawb)
4 gwyn ŵy
225g siwgrwr mân
300ml hufen (chwipio neu dwbwl)
Ychydig o gnau pistachio wedi'u torri
Mefus a hufen i weini

Dull

1. Trowch y ffwrn i 140C, 275 F, Nwy 1.
2. Leiniwch dun gyda phapur gwrthsaim.
3. Curwch y gwynwy, ac yn araf ychwanegwch y siwgrwr, nes ei fod yn dal siap pigau.
4. Gosodwch y meringue ar siap cylch ar y papur, a phobwch am awr a hanner, a gadewch i oeri yn y ffwrn.
5. Curwch yr hufen, a llenwch y plisgyn meringue; rhowch y ffrwythau ar ei ben, a chawod o gnau dros y cyfan.

Pwy yw hwn?



Bu'r llun hwn yn destun tipyn o drafod ers ei ymddangosiad yn rhifyn Ebrill.

Enw'r crwt bach yma yw'r Cyng Ieuan Davies, Llanybydder.

Un ymgeisydd llwyddiannus a ddaeth i law sef Sonia Davies, Llanybydder. Llongyfarchiadau, a diolch am ymateb.

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Darteithion i de

* Pwŵinau

* Airlwyo ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnwydd,

01570 434 243

07815 962 045

Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- * Datrys Problemau a Trwsio
- * Ymweliadau Cartref
- * Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- * Pherifferolion Ar Werth
- * Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776

neu 07715 740777

www.tynici.com

graham@tynici.com



COFRODDION A CHERDIAU CYMREIG
PERSONOL AC UNIGRYW WEDI EU
GWNEUD Â LLAW YN EIN GWEITHDY

DEWCH I YMWELD A'N ADRAU PRIODASAU NEWYDD

01570 423884

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambled
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Llanfair

Clwb Cant

£20: Paul Miller, Cysgod y Coed;
£10: Beca John, Hong Kong; Y
gweddill £5 yr un: Rhodri a Geinor,
Rosedew; Dafydd Jones, Llanfair
House; Laura Jones, Llanfair House;
Ann Williams, Cellan; Tony Barker,
Ty Coch; David Davies, Ty'r Ysgol;
Jo Leech c/o Tanyresgair; Chris
Hess, Glanrhyd.

Sefydliad y Merched

Cafwyd noson ddiddorol iawn ar
28 Mawrth pan ddaeth Lizzie Clark
a Linda Quelch i esbonio a dangos
i ni sut i ffeltio sebon a gwneud rap
gwyr. Dangosodd Lizzie i ni yn
gyntaf sut i ffeltio o amgylch sebon
gan fod hyn yn helpu'r amgylchedd
trwy wneud y sebon i bara'n hirach.
Yna dangosodd Linda sut i wneud rap
gwyr trwy doddi gwyr ar ddefnydd
trwy ddefnyddio haearn poeth.

Mae hwn yn ddefnyddiol i'w roi o
amgylch bwyd neu frechdanau. Gall
hwn gael ei ddefnyddio drosodd a
throsodd yn lle ffoil neu cling, hyn
eto i helpu'r amgylchedd. Cafodd
pawb gyfle i greu un o rhain. Ar ôl
gorffen, cafwyd lluniaeth blasus
fel arfer. Y tro nesaf, ym mis Mai,
bydd noson agored gyda Adar yr
Ysglyfaeth Cei Newydd yn dod i
roi profiad i ni gyda trafod tylluan.
Croeso i bawb.

Priodas Arian.

Llongyfarchiadau i Martin ac Eleri
Quan, Swm yr Afon, ar ddathlu eu
priodas arian ar 21 Mai. Dymuniadau
gorau a llawer o gariad iddynt oddi
wrth Ceris a Llyr, Ffion a Rhydian
a'u ffrindiau oll. Joiwch y dathlu.

Pencarreg

Diolch

Carai Ruth Jones, Min y Llyn
ddiolch yn garedig i bawb wnaeth
ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed
yn adeg hyfryd iddi. Diolch am yr
holl gardiau, blodau, galwadau ffôn
ac anrhegion. Diolch hefyd i'r holl
ymwelwyr wnaeth wneud yr adeg
yma mor hyfryd a llawn llawenydd.
Diolch yn fawr.

Pen-blwydd sbesial

Yn ystod diwedd mis Ebrill, fe
ddathlodd Delyth Jacob, Fron-deg
ben-blwydd arbennig – gobeithio
eich bod wedi joio'r dathlu.

Cwmsychpant

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Ian Jones, Tŷ
Crian ar farwolaeth ei wraig, Chris a
fu farw'n sydyn ddechrau mis Ebrill.
Yn ôl ei dymuniad bu ei hangladd
yng Nghapel y Cwm ac yno y
daearwyd ei gweddillion.

O San Steffan gan Ben Lake AS



Cyd-drafod, cyd-gynllunio, cydweithio a chyd-adeiladu: ry'n ni Gymry
yn gyfarwydd iawn â gweithio gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth
cadarnhaol yn ein cymunedau lleol.

Mae'n drueni nad yw ysbryd cydweithredol y Cymry wedi ymdreiddio i
furiau San Steffan dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf. Ychydig ohonoch
fydd yn synnu o ddarllen mai Brexit sydd wedi mynnu y lle blaenllaw yn
San Steffan. Yn union fel mae'r mater wedi ymddangos ymhob bwletin
newyddion, mae'n dylanwadu bron yn llwyr ar drafodion y Llywodraeth.

Er bod yna faterion pwysig eraill yn cael eu trafod yn y Tŷ Cyffredin,
ychydig o amser gwerthfawr sy'n cael ei ganiatau mewn gwirionedd i
gyflwyno a phasio cyfreithiau fyddai'n mynd i'r afael â'r heriau sy'n
wynebu cymdeithas.

Po hwyaf yr erys Brexit ar yr agenda ddeddfwriaethol, hwyaf yn y byd
yr aiff materion o bwys heb eu trafod – megis polisi newid hinsawdd
Llywodraeth y DU, diwygiadau i'r pensiwn gwladol, neu effaith y toriadau
parhaus i wariant cyhoeddus.

Anodd fydd mesur cost gwirioneddol y diffyg gweithredu hwn, ond
mae nifer cynyddol o Aelodau Seneddol yn credu bod gweithio ar draws y
pleidiau yn gwbl angenrheidiol os ydym am ddarganfod datrysiad i Brexit
- gan ddatgloi, ymhen amser, y logjam seneddol sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Byddai llawer yn dadlau y dylai fod mwy o gydweithio wedi bod yn
digwydd yn y Senedd ers tro: y dylai pob ochr fod wedi dilyn ffordd mwy
cydweithredol a llai pleidiol o fynd ati yn dilyn etholiad cyffredinol 2017.
Rwy'n cytuno â hynny'n llwyr, a byddaf yn parhau i drio annog a chymell
mwy o gydweithio, cyd-drafod a chydysynio yn y Senedd dros y misoedd
nesaf er lles cymunedau Cymru.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



Mae'r gwanwyn yma o'r diwedd, ac mae'n braf croesawu tywydd mwy
sefydlog.

Mae hi'n amser prysur unwaith eto i ffermwyr Ceredigion, gyda'r wyna
ar waith. Yn anffodus, mae ansicrwydd yn parhau i ffermwyr sydd yn
dibynnu ar fasnach Ewropeaidd. Roeddem ni gyd, erbyn hyn, yn gobeithio
cael gwell syniad o ddyfodol y sector amaeth yn dilyn Brexit, ond mae
hynny mor aneglur ag erioed.

Dros y misoedd diwethaf, rwy wedi parhau i gwrdd ag etholwyr trwy'r
sir, ac i groesawu'r rheiny sydd wedi teithio i'n Senedd ym Mae Caerdydd.

Un grŵp o'r fath yw WASPI Ceredigion. Mae'r grŵp yn ymgychu yn
erbyn anghysondeb ar gyfer menywod a anwyd yn yr 1950au oedd yn
disgwyl ymddeol yn 60 oed. Mae rhai ohonynt wedi cael gwybod, gydag
ond deunaw mis o rybudd, bod rhaid iddynt aros 6 mlynedd arall cyn
ymddeol.

Ar ôl cwrdd gyda'r grŵp yn Aberystwyth ar ddiwrnod rhyngwladol y
merched ychydig wythnosau yn ôl, llwyddwyd i gynnal dadl ar lawr y
Cynulliad yr wythnos ganlynol, a chael cydsyniad y Cynulliad i gefnogi
eu hymgyrch. Fe gytunodd y Cynulliad i alw ar Lywodraeth y DU i wneud
trefniadau pensiwn gwladol trosiannol teg i bob menyw a anwyd ar neu ar
ôl 6 Ebrill 1951. Roedd presenoldeb cymaint o fenywod o Geredigion ac o
ardaloedd eraill o Gymru yn sicr wedi dwyn perswâd ar Aelodau Cynulliad
ynghlŷn â pha mor bwysig oedd y mater.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd ymgynghoriad gan Ofcom ar argaeledd
signal ffôn 5G, gyda'r sefydliad yn cynnig mynediad anghyfartal i signal
ffôn symudol ledled y DU. Byddai hyn yn cynnig mwyafrwm o 83% o
argaeledd signal yng Nghymru, tra bod mwyafrwm o 90% o argaeledd
signal ffôn yn Lloegr.

Rwyf wedi codi'r mater gydag Ofcom, gan nodi bod gan Geredigion
y signal ffôn a'r cyswllt band llydan gwaethaf ac arafaf yn y DU. Petai
Ofcom yn ymrwmo i'r anghydraddoldeb yma, mae posibiliad real y bydd
ein cymunedau eto yn cael eu gadael ar eu hôl.

Byddai ehangu'r signal y gallai rhwydweithiau 5G eu darparu yn
caniatáu etholwyr i gael mynediad i gysylltiadau ar lefel cyflymder uchel
ac yn sicrhau nad yw byw mewn ardal wledig yn anfanteisiol mewn byd
modern, digidol.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacenau
Dathliadau
Partion

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAW,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 post@adve.co.uk



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:

Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed

☎ 01570 423135

☎ 07811917799 /
07968821035

✉ mwnciffwnci@hotmail.com

MIS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Er gwaetha' popeth, mae'r byd yn ei le

"Cynta lle y cân y cogydd

Yw y fawnog ar y mynydd."

Rhag ofn i chi feddwl, dydi'r hen bennill Cymraeg yna ddim yn sôn am chef cerddorol oedd yn hoff o grwydro corsydd ... yn hytrach mae'n sôn am y gog.

Ac, o ran yr ardal yma beth bynnag, mae'r hen gwpld yn hollol gywir; mae hi'n ôl ar Fynydd Llanybydder lle mae'r goedwig a'r tir gwlyb yn cwrdd.

Un o ddefodau diwedd Ebrill bellach ydi mynd i'r tir uchel i wrando am y ddau nodyn cyfarwydd a'i chlywed hi'n gwneud ichi deimlo bod y byd yn ei le o hyd. Os ydi Brexit yn llanast, mae'r gog yn dal i groesi'r cyfandiroedd i ddod i gyffiniau Caermalwas a Phantycrws.

O ystyried ei stori a'r ffordd y mae'n manteisio ar adar eraill i ddarparu nyth ar ei rhan a dinistrio cywion yr adar hynny, mae'n rhyfedd ein bod ni mor hoff o'r gwcw. Ac er fod yr enw'n gallu cael ei ddefnyddio i ddisgrifio rhywun gwirion, mae yna barch at yr aderyn.

Mae'r gân enwog gan Ceiriog ... "Wrth ddychwel tuag adref, mi welais gwcw lon" ... yn dal llawer o hudoliaeth yr aderyn a'r teimlad o fod yn lwcus o gael ei weld. Er ei bod yn anodd deall sut yr oedd y bardd yn gwybod bod y gwcw hwnnw'n hapus.

A "hwnnw" ddylen ni ddweud er mai "hi" ydi'r gog bob tro. Ond, mae'n debyg, fel yn achos llawer o adar, y ceiliog ydi'r un sy'n canu'r gân drawiadol. A hynny'n golygu, bob tro y clywn ni un cog, fod un arall, fenywaidd, yn rhywle yn y cyffiniau.

Chwedlau

Efallai am fod ei dymor mor fyr, efallai am ei fod mor hawdd ei glywed ond mor anodd ei weld, mae yna bob math o straeon a chwedlau wedi codi o amgylch y gog a'r rheiny'n aml yn ymwneud â lwc wael neu lwc dda.

Yr enwoca', mae'n debyg, ydi'r syniad fod rhaid ichi gael arian yn eich poced wrth ei glywed yn canu. Fel arall, os ydi eich poced yn wag, mi fydd hi'n aros yn wag am weddill y flwyddyn hefyd. Ac os bydd cog yn hedfan o'ch blaen chi, mae'n debyg iawn y byddwch chi'n symud tŷ i rywle yn y cyfeiriad hwnnw.

Ond, mewn gwirionedd, does yna ddim mor rhyfeddol ag arferion go iawn yr aderyn a'r frwydr fawr rhyngddo fo a'r adar y mae'n manteisio arny'n nhw. Y gog yn datblygu ystrywiau i dwyllo'r adar bach a'r rheiny'n datblygu ffyrdd o drio'i atal ... fel ras arfau naturiol.

Mae'r gog wedi gallu gwneud i'w wyau 'ddynwarded' wyau'r adar bach ac mae cyw'r gog wedi datblygu pant ar dop ei gefn sy'n ei gwneud hi'n hawdd i wthio'r wyau eraill o'r nyth. Ac wedyn, rhywsut, mae'r cyw yna'n gallu ffeindio'i ffordd yn ôl i le penodol iawn yn Affrica filoedd o filltiroedd i ffwrdd.

Yn union fel y bydd y gog aeddfed yn gwneud yr un daith y ffordd arall, tros wlad ar ôl gwlad a sawl môr i gyrraedd Pantycrws a Chaermalwas.

Y gog a ni

Mi fyddwn ninnau'n mesur y gwanwyn yn ôl cloc y gwcw. "Dyfod pan ddêl y gwcw, myned pan êl y maent" meddai R. Williams Parry am glychau'r gog ac mae'r gair yn wir unwaith eto. Yr un penwythnos ac y dechreuodd hi ganu, mi orlifodd y coedlannau a'r cloddiau â môr o flodau glas.

I ni yn Llanwnnen, pan fydd y Pasg yn hwyr fel yr oedd eleni, mae dyfodiad y gog hefyd yn cyd-daro ag un o ddigwyddiadau pwysica'r flwyddyn – Eisteddfod Capel y Groes.

Eleni oedd un o'r eisteddfodau gorau ers blynnyddoedd a thorreth o blant yn cystadlu. Roedd yna gefnogaeth arbennig o dda gan blant Ysgol Dyffryn Cledlyn ond roedd yna gystadleuwyr eraill wedi teithio'n bell i berfformio.

Mae'r safon yn uchel bob blwyddyn a, rhywsut, mae'n gwella bob tro. Ac, eleni, y pleser o weld bardd lleol iawn yn ennill y Gadair. Llongyfarchiadau Twm Ebbsworth.

PHILIP JONES
FINANCIAL SOLUTIONS

Agricultural, Construction and Business Finance

Cyllid Amaethyddol, Adeiladu
& Busnes • Offer Amaethyddol
ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau
Masnachol • Cyfleusterau
Amddiffiniad Offer Newydd a
Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies

07757 668339 / 01544 340562

bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk

www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
Financial Conduct Authority No FRN 690293

Gwasanaethau Coed Llambed



Cae Celyn, Heol Llanfair,
Llambed, SA48 8JX
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Ma'nachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG

Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambed, Heol Tregaron,
Llambed.

☎ 01570 422955

☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO

AA
A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allweddai a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.

3 Stryd y Bont

Llanbedr Pont Steffan

01570 423156

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHWYR,
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambed**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl ffrindiau,


Helo blant, shw mae? Beth ydych chi wedi bod yn gwneud dros wyliau'r Pasg? Fuoch chi yn chwarae tu allan gyda'ch ffrindiau? Wel, rydw i wedi gwneud ffrindiau newydd sbon yn ystod yr wythnosau diwethaf 'ma. Maen nhw dipyn yn llai o faint na fi, ac yn criplan cropian i bob man. Mae'n well ganddynt y tywyllwch na'r golau ac er mwyn darganfod rhai ohonynt, bydd rhaid i chi balu o dan y pridd a'r cerrig. Fedrweh chi ddyfalu pwy yw'r ffrindiau hyn? Wel, trychfilod bach o bob lliw a llun sydd yn byw yn fy ngardd fach i.

Wel, ar waethaf prysurdeb y gwyliau, aeth nifer ohonoch ati i liwio llun yr wyau pasg. Da iawn chi gyd. Roedd ganddoch chi gyd luniau lliwgar iawn ac yn enwedig un Sara Fflur Pugh o Ffair Rhos ac Elin Dafydd o Gwmann. Ond y llun mwyaf lliwgar y mis yma oedd un Soffia Draycott Evenden, 10 Heol y Dderi, Llanybydder. Llongyfarchiadau mawr i ti Soffia!

Mae'r tywydd yn gwella ac rydw i wedi bod wrth fy modd allan yn yr ardd yn chwarae gyda'm ffrindiau bach newydd. Beth am fynd ati i liwio llun y trychfilod bach? Cofiwch ddychwelyd y llun ataf erbyn 27ain Mai.

Ta ta tan toc.

Lincyn Lincyn



**Enillydd
y mis!**

**Soffia
Draycott
Evenden**


Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyo symudol
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladdau
- Digwyddiadau Maes
- Peiriant Rhostio Mochyn ar gael

Bar symudol ar gyfer
digwyddiadau allanol
boed yn fawr neu'n fach



Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plantyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad:

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnis cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol
Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref

Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com

**true potential
wealth management**

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid
gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn
cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Bag Siopa Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref
ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

			8	5		3
	8				2	1
			4		5	
9				2	8	6
	1					2
	7	5	3			9
		7		9		
4		1				8
3			1	7		

Swdocw Ebrill

Llongyfarchiadau i:

Vivienne Vaughan-Evans,
Cwmann a diolch i bawb
arall am gystadlu: Eurwyn
Davies, Llanybydder; R
Jones, Llanbed; Glenys
Davies, Llanybydder;
Avril Williams,
Cwmann; David Hayes,
Wolverhampton;
Richard Evans, Llanybydder;
Megan
Dafydd, Cwmann; Bethan Williams, Llanybydder a
John Bevan, Felinfach.

7	4	8	3	1	6	2	9	5
2	3	1	8	9	5	7	4	6
5	9	6	4	2	7	1	8	3
3	7	4	2	6	8	9	5	1
9	6	5	7	4	1	8	3	2
8	1	2	9	5	3	6	7	4
4	8	3	1	7	2	5	6	9
1	5	9	6	8	4	3	2	7
6	2	7	5	3	9	4	1	8

Llwyddiant Chwaraewyr Pêl-droed Llanbed



Tîm dan 10 Llanbed wedi eu llwyddiant yn Nhwrnamaint Felinfach.



Tîm dan 12 Llanbed yn ennill Twrnamaint Penrhyncoch a Felinfach.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llanbed, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305



Rhun Davies yn ennill chwaraewr y dydd dan 12 yn Felinfach.



Sara Jones oedd gôl geidwad y dydd yn Nhwrnamaint Felinfach.

LHP

- CYFRIFWYR
- ARCHWILWYR
- YMGYNGHORWYR



CYFRIFWYR
SIARTEDIG
ICAEW

81 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AB

CYFRi

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynnyddu. Nid ydych yn sic o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

LAS Recycling Ltd

GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF MASNACHOL

Am wasanaeth effeithiol a fforddiadwy i'ch holl anghenion gwastraff ffoniwch:

01570 421 421

Rydym yn darparu
biniau maint:
240 / 660 a 1100 Litr



LAS RECYCLING LTD
HEOL TREGARON, LLANBEDR PONT STEFFAN,
CEREDIGION. SA48 8LT

Mwy o lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd



Llongyfarchiadau i Catrin Daniel, Bro Pedr am gipio'r wobwr gyntaf am waith CAD bl. 7, 8 a 9 yn Eisteddfod Gelf a Chrefft Sirol yr Urdd.



Cipiodd Elen Jones, Bro Pedr yr ail wobwr am grochenwaith bl. 7, 8 a 9 yn Eisteddfod Gelf a Chrefft Sirol yr Urdd – llongyfarchiadau.



Cipiodd Ffion Davies, Bro Pedr yr ail wobwr am greu arteffact bl. 7, 8 a 9 yn Eisteddfod Gelf a Chrefft Sirol yr Urdd – llongyfarchiadau.



Llongyfarchiadau i Luned Jones, Bro Pedr am gipio'r drydedd wobwr am greu arteffact bl. 7, 8 a 9 yn yr Eisteddfod Gelf a Chrefft Sirol.



Llongyfarchiadau i Ifan Meredith, Bro Pedr ar gipio'r wobwr gyntaf yng nghystadlaeth Gwehyddu bl. 7, 8 a 9, cyntaf am Gemwaith bl. 7, 8 a 9, ac ail am Ddylunio a Thechnoleg bl. 7, 8 a 9 yn Eisteddfod Gelf a Chrefft Sirol yr Urdd.



Cipiodd Logan Jones, Ysgol Bro Pedr y drydedd wobwr yn Eisteddfod Gelf a chrefft Sirol yr Urdd am waith CAD bl. 7, 8 a 9 – llongyfarchiadau.



Llongyfarchiadau i Marged Jones, Ysgol Bro Pedr am gipio'r drydedd wobwr am grochenwaith bl. 7, 8 a 9 yn Eisteddfod Gelf a Chrefft Sirol yr Urdd.



Llongyfarchiadau i Fflur Meredith, Bro Pedr am gipio'r wobwr gyntaf am waith Tecstilïau 3D i fl. 3 a 4, yr ail wobwr am wehyddu bl. 3 a 4 ac am emwaith 3 a 4, a'r drydedd wobwr am waith lluniadu bl. 3 a 4 yn yr Eisteddfod Gelf a Chrefft Sirol.



Trystan Bryn Evans, Harford, Aelod Unigol Cylch Blaenau Tywi enillodd 1af yn yr Unawd, Llefaru a Cherdd Dant Bl. 3 a 4, a 3ydd yn Unawd Piano Bl. 6 ac Iau. Pob lwc i ti yng Nghaerdydd.

GWNEWCH I GYMRU GYFRIF

**Pleidleisiwch dros
Blaid Cymru yn
etholiad Ewrop
ar Fai 23**

Plaid Cymru | Party of Wales

Llongyfarchiadau i'r merched canlynol sef Swyn Efa Tomos, Pencarreg, Beca Ebenezer, Cellan a Betrys Llwyd Dafydd, Abermeurig, sydd wedi cael eu dewis i fod yn rhan o gorws Only Kids Aloud. Maent yn edrych ymlaen yn eiddgar i berfformio mewn lleoliadau gwahanol. Pob hwyl i chi ferched.